

ECO'R WYDDFA

Rhif 189

EBRILL 1993

Pris 25c

Cymorth i'r Llywodraethwyr

Roedd cynrychiolwyr Cyrff Llywodraethol ysgolion cynradd y fro mewn cyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn Ysgol Syr Huw Owen yng Nghaernarfon nos Lun, Mawrth 29, i drafod sefydlu Ffederasiwn Llywodraethwyr Gwynedd. Cafwyd cefnogaeth frwd i'r egwyddor o sefydlu'r Ffederasiwn, a bydd Pwyllgor Llywio yn awr yn mynd ati i lunio argymhellion y gellir eu cyflwyno i'w trafod gan Gyrff Llywodraethol yr ysgolion.

Mae angen am gorff newydd o'r fath gan Gyrff Llywodraethol sydd yn poeni am effeithiau polisiau'r Llywodraeth ar addysg eu plant. Erbyn hyn mae llawer rhagor o gyfrifoldebau ar lywodraethwyr ac y mae'r Awdurdod Addysg i bob pwrpas i gael ei ddileu. Gobeithir y bydd Ffederasiwn Llywodraethwyr yn hyrwyddo cydweithio ymysg yr ysgolion; yn diogelu'r gwasanaethau sydd ar eu cyfer; ac yn helpu cynnal y gwerthoedd sylfaenol a fu'n sail i addysg plant Gwynedd dros y blynyddoedd.

LLANBERIS DI-DRAFFIG



Mae gan Gyngor Arfon gynlluniau mentrus i bedestrianeiddio Stryd Fawr Llanberis. Bwriedir gwahardd ceir a lorïau o ganol y pentref rhwng 8.30 a.m. a 5.30 p.m. yn ystod Gorffennaf ac Awst o 1994 ymlaen. Ni fydd cerbydau yn cael mynd ar hyd y rhan honno o'r Stryd Fawr rhwng Gwesty'r Prince of Wales a Siop Spar yn ystod yr oriau hyn.

Yn ôl Prif Swyddog Mwynderau'r Cyngor, 'Prif bwrpas y cynlluniau yw sicrhau datblygu'r Stryd Fawr yn ganolfan siopa lewyrchus. Mae'r Cyngor yn poeni bod traffig trwm yr haf yn cadw pobl draw o ganol y pentref. Bydd troi'r rhan yma o'r Stryd Fawr yn stryd i gerddwyr yn unig yn ystod y dydd yn golygu y caiff ymwelwyr a phobl leol siopa mewn awyrgylch diogel a phleserus, yn union fel siopwyr mewn rhannau o Gaernarfon a Bangor sydd wedi hen arfer â'r syniad o strydoedd di-draffig. Byddwn yn denu rhagor o ymwelwyr sy'n dylifo i ben arall y pentref i ymweld â'r Stryd Fawr. Mae'r Cyngor o'r farn bod rhaid mentro er mwyn sicrhau datblygiad Llanberis yn ganolfan siopa a thwristiaeth o bwys.'

Mae'r gwaith o addasu'r Stryd Fawr wedi ei gychwyn ers rhai misoedd wrth gwrs. Y llynedd fe osodwyd yr arwyddbyst du henffasiwn ar gongl y strydoedd, ac y mae'r palmentydd wedi eu hail osod ers tro. Bwriedir cychwyn y gwaith o osod wyneb newydd i'r Stryd Fawr ym mis Hydref eleni. Bydd £200,000

yn cael ei wario ar osod cerrig mân (cobblestones) ar hyd y stryd, ac ar blannu coed wrth ymyl y palmant a gosod seddi yma ac acw. Dylai'r gwaith fod wedi ei orffen erbyn yr haf nesaf.

Er y bydd rhaid i'r Cynghorydd lleol, Noel Davies, orffen ei rownd llefrith ryw awr yn gynt yn y bore, dywed ei fod 'o blaid y cynllun sydd yn siŵr o fod er lles mawr i'r pentref.'

Mae'n debyg y bydd croeso cymysg i'r cynlluniau hyn ymhlith siopwyr a thrigolion y Stryd Fawr. Bydd rhai yn falch o'r ymdrech i wella golwg a chyfleusterau'r Stryd Fawr, gan obeithio y gwelir ffyniant siopau a busnesau'r pentref. Ond nid yw'r Eco wedi ei argyhoeddi bod y cynlluniau yn fantais i'r pentref. Bydd yn anodd i drigolion y Stryd Fawr fynd a dod yn ystod y dydd, a gall y siopau ddioddef os na chaiff eu cwsmeriaid rheolaidd ddod fel arfer at ddrws y siop mewn car. Ofnwn mai enghraifft arall yw'r cynlluniau hyn o hybu anghenion y diwydiant twristaidd ar draul buddiannau a hwylustod y trigolion lleol.

Y TRADDODIAD YN PARHAU

Daeth prif dlws Chwaraewr y Flwyddyn yn Arfon i fro'r Eco unwaith eto. Daw'r enillydd, Peter Roscoe, o'r Waunfawr; ac y mae Peter wedi gwneud ei farc mewn dau faes — snwcer a golff. Ar hyn o bryd mae'n gwneud bywoliaeth iddo'i hun fel hyfforddwr golff yn ardal Llandudno. Yn ei araith fer wrth dderbyn y tlws, soniodd am y pleser a gaiff o fod wedi sefydlu ei hun yn y maes arbennig o gystadleuol sy'n bodoli ym myd golff. Yr oedd yr oriau o ymarfer, a gwranddo, ac aberth, yn dechrau dwyn ffrwyth. Talodd deyrnged i'w gariad am ei chymorth. Clywais droeon am y 'weddwr chwaraeon' ond dyma'r tro cyntaf i mi glywed am 'gariad chwaraeon'. Pan oeddwn i'n ifanc, 'Fi neu'r criced 'na,' oedd hi!

Bu Peter yn hynod lwyddiannus wrth chwarae snwcer hefyd. Mae wedi cael cryn lwyddiant fel aelod o dîm Deiniolen ac wedi gwneud rhediad o 100. Yn y cyswllt hwn rhoddodd deyrnged i gefnogaeth swyddogion cynghrair snwcer Bangor a'r Cylch am eu hanogaeth iddo fentro cystadlu. Erbyn hyn ef yw pencampwr 'Ranking' Cymru.

Sylwais mor ddiymhongar oedd Peter, ac roedd ei eiriau wrth dderbyn y tlws yn gryno a phwrpasol. Y mae yn



Llun: Gerallt Llywelyn

Peter Roscoe yn derbyn tlws Chwaraewr y Flwyddyn oddi wrth Maeres Arfon ac Ossie Wheatley (Cadeirydd Cyngor Chwaraeon Cymru).

olynydd teilwng i Colin Jones a Michael Wroe — y ddau enillydd blaenorol y tlws. Braf yw nodi bod y tlws wedi cael ei roi i unigolion sydd ag ymroddiad mawr yn eu dewis gampau. Mae'r oriau o ymarfer, a'r aberth bersonol wedi talu i'r tri. A welir traddodiad yn cael ei gynnal y tymor nesaf? Neu, beth am y tlws am dîm y flwyddyn?

Daeth tlws arall i'r fro pan ddewiswyd Caitlin Wroe yn ail yn y gystadleuaeth i'r ferch ifan fwyaf addawol.

Yr hyn sy'n galonogol o fynychu y

noson wobrwyo yw'r ystod eang o chwaraeon a geir o fewn i'r fwrdeistref. Rhaid canmol Ieuan Lewis a'i staff yn Adran Technegol Cyngor Arfon am hybu chwaraeon a cheisio gosod sylfaen gadarn i drefniant chwaraeon yn y cylch.

Yn olaf rhaid sôn am 'seren y noson' — Aled Roberts o Lanrug — y Swyddog Chwaraeon. Ef sy'n llywio'r noson, ac mae'n gwneud hynny'n hynod o broffesiynol. Mae'n amlwg fod Michael Aspel wedi cael gwersi ganddo!

ECO'R WYDDFA

RHIF 189
1 EBRILL 1993

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115)

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (674669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

Gareth Williams, Angorfa,
Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)

Tony Storey, Awel y Mynydd,
Ceunant, Llanrug (650600)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Tŷ
Hen, Waunfawr (650599)

TREFNYDD GWERTHIANT

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr
Orsaf, Llanrug (675510)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (673536)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyr
Rhuddallt (676733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, EBRILL 29
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, EBRILL 19
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MAI	EBRILL 29	DEINIOLLEN	Mr W. O. Williams	871259
MEHEFIN	MAI 27	BRYNREFAIL	Miss Lowri P. Roberts	870580
GORFFENNAF	GORFFENNAF 1	BETHEL	Mr Geraint Elis	(0248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 9	DINORWIG	Mr Melrion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 28	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
RHAGFYR	RHAGFYR 2	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034

Dymunaf ddiolch i'r cysylltwyr am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i fy nghynorthwyo i drefnu'r rota am y flwyddyn.

Llythyrau

Bron y Nant
Llanrug

Annwyl Olygydd,

Bûm yn pendroni cryn dipyn cyn ysgrifennu hyn o eiriau gan y gwyddwn y byddai nifer go dda o ddarllenwyr, yn fwriadol neu'n anfwriadol, yn cam-ddehongli fy sylwadau. Maent yn deillio o'r apêl a gyhoeddwyd y mis diwethaf ynglŷn â thacluso mynwent Llanddeiniolen. Erbyn hyn, mae'r gost o glirio a thacluso mynwentydd wedi mynd yn ddech na'r awdurdod sy'n gyfrifol amdanynt. Yr eithriadau wrth gwrs yw'r mynwentydd 'newydd' ble ceir rheolau pendant ynglŷn â gosod cerrig pen yn unig, ac felly'n gwneud y gwaith o dorri gwair yn llawer haws a chyflymach. Yn yr 'hen' fynwentydd plwyfol mae cerrig traed, rheiliau, graean marmor, ac yn y blaen, yn ei gwneud bron yn amhosibl cadw'r tyfiant i lawr. Mae llawer o'r beddau hefyd mor hen fel nad oes teuluoedd ar ôl bellach i ofalu amdanynt.

Rhaid cydnabod hefyd mai mynwentydd yw rhai o'r ychydig erwau o dir nad ydynt yn cael eu llygadu gan rhyw ddatblygwr barus. Dyma warchodfeydd natur a ddatblygodd dros ganrifoedd heb ddioddef nemor ddim o effeithiau niweidiol Dyn. Pam felly, na ellir eu cadw'n warchodfa natur? Roedd yn wledd i'r llygad gweld hen fynwent blwyfol Llanrug pan oedd yr eirysiau i gyd yn eu blodau eleni, ac y mae'r coed yw yn nythfa i nifer o adar yn yr un modd ac y mae'r llechi cynnes yn denu'r slorwm i dorheulo ar ddiwrnod o haf. Yn ein mynwentydd hefyd mae blodau'r gwynt, crinllys a ffachys yn rhoi lliw. Mae hyd yn oed bwtsias y gog i'w cael mewn ambell fynwent.

Mae'r Pasg yn amser traddodiadol i osod blodau ar feddau. Ond beth am weddill y flwyddyn? Pe bai hâd blodau gwyllt yn cael eu gwasgaru hyd yr hen fynwentydd fe geid lliw gydol y flwyddyn, gan ddenu pryfetach a ieir bach yr haf i fwydo, a'r rheini yn eu tro yn denu adar ac anifeiliaid eraill i fyw arnynt. Tybed a fyddai gan Gyngor Cefn Gwlad ddiddordeb mewn helpu i gynnal y fath 'warchodfeydd natur'?

Rwy'n llawn sylweddoli mai poeni am y drain a'r mieri sy'n tagu popeth y mae awdurdodau sy'n gyfrifol am fynwentydd, ond mewn difrif calon,

ydi o gymaint a hynny o wahaniaeth os oes beddau na thacluswyd ers cantoedd yn cael eu mygu gan Natur? Onid rheolaeth synhwyrol sydd ei angen yn hytrach na chlirio popeth yn llwybrau a phetryalau bach artiffisial o daclus?

Yr eiddoch yn gywir,

DAFYDD W. THOMAS

Llinyn Aur y Ffermwyr Ieuainc

Swyddfa'r Ffermwyr Ieuainc
Coleg Glynllifon

Ffordd Clynnog

Caernarfon

Ffôn: (0286) 831214

Annwyl Olygydd,

Yn gyntaf, carwn roi gair o ddiolch i bawb a fu mor garedig ag ymateb i'n hapêl am ddeunydd perthnasol i Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuainc Eryri dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Fe ddaeth toreth o ddeunydd i law o bob rhan o'r sir ac o bob cyfnod.

Y canlyniad fydd cyhoeddi llyfr yn olrhain hanes y Ffederasiwn dros yr hanner can mlynedd diwethaf, sef **Y Llinyn Aur**. Bydd y llyfr yn cynnwys amrywiaeth fawr o ddeunydd — yn luniau, straeon, cartŵnau, penillion a phob math o wybodaeth arall o 1943 hyd at 1993.

Cyhoeddir y llyfr ar ddydd Sadwrn, Mai 8, 1993, ac i nodi'r ffaith ynghyd â dathlu hanner canmlwyddiant y Ffederasiwn, cynhelir cinio dathlu yn Neuadd Glanrafon, Prifysgol Bangor, ar y noson arbennig hon. Mae tocynnau ar gyfer y cinio dathlu eisoes ar gael o'r swyddfa (pris £8 yr un), felly os ydych am fod yn bresennol i dathlu'r 50 mlwyddiant a chael copïau cyntaf y llyfr yna cysylltwch â'r swyddfa ar unwaith.

Yn ddiffuant,

GARETH HUWS, Trefnydd

Cyfeillion y Samariaid Gwynedd

Wyddech chi ei bod yn arferiad gan Gyfeillion y Samariaid i gael Siop ym Mangor am wythnos yn ystod yr haf? Wyddech chi hefyd iddynt gael Sioe Ffasiwn lwyddiannus iawn yng Nglynllifon yn ddiweddar? Wyddech chi fod diwrnodau baneri yn digwydd ar hyd a lled Gwynedd yn weddol gyson ynghyd â llawer digwyddiant arall?

Tybed fedrwch chi helpu i godi arian trwy gynnal rhyw weithgaredd bach neu fawr yn eich ardal chi? Os

felly, cysylltwch â mi os gwelwch yn dda. Y rhif ffôn yw Bethesda (0248) 602664.

Yn gywir,

MARGARET PARRY, Ysgrifennydd

Chwilio am Gymry America

Uned Hel Straeon

Gronant

Caernarfon

LL55 1NS

Annwyl Gyfeillion,

Yn mis Mehefin eleni bydd Uned Hel Straeon yn ffilmio cyfres o raglenni yn America. Rydym yn chwilio am Gymry difyr ym mhob rhan o'r wlad. Felly, os ydych chi'n gwybod am rai, a oes modd i chi gysylltu â ni, cyn gynted â phosib, un ai trwy lythyr neu drwy ffonio (0286) 677595.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthythch.

Yn gywir iawn,

ANN FÔN JONES

Dathlu Deunaw Oed

Bedw Gwynion

Ffordd Glanffynnon

Llanrug

(0286) 675605

Annwyl Ddarllenwydd,

Yn dilyn fy llythyr yn y rhifyn diwethaf yn apelio am hen rifynnau o Eco'r Wyddfa, carwn ddiolch i'r llun a ymatebodd. Cefais y copïau yr oeddwn i'n bersonol yn eu ceisio a llwyddais i gwblhau casgliadau nifer o ddarllenwyr eraill.

Bellach mae gan Eco'r Wyddfa nifer fach o gopïau sbâr o hen rifynnau. Carwn ddiolch i'r Sefydliad Coffa, Llanrug, am roi caniatâd a lle i'w storio.

Cyn bo hir bydd Eco'r Wyddfa yn 18 oed. Wedyn, os bydd aelod o'ch teulu yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed, bydd modd i chi brynu copi gwreiddiol o rifyn Eco'r Wyddfa mis ei eni ef neu hi. Fe wnaiff anrheg gwahanol ac unigryw.

Mae'r hen gopïau'n brin, ond y prinaf oll yw rhifau: 1 hyd at 35, 54, 55, 77, 79, 87, 93, 110, 151, 152, 155, 182 a 183.

Os oes gan rywun gopïau sbâr o unrhyw rifyn, peidiwch â'u taflu. Rhowch nhw i'r Eco. Cânt eu trysori gan rywun arall a bydd yr arian o'u gwerthu oll yn mynd i helpu'r papur.

Yn gywir,

R. JOHN ROBERTS

Cadeirydd Pwyllgor Llywio
Eco'r Wyddfa.

'AI DA NEU DRWG YDYCH?'

gan DEIO

Yn ddiweddar, bu i'r rhan fwyaf o drigolion Prydain gael eu hysgwyd i'w seiliau wrth glywed am lofruddiaeth y bachgen dwyflwydd oed yng nghyffiniau Lerpwl, dedfryd euog ar ddwy ferch ifanc o dde Cymru am ymosod yn ddirugaredd mae'n debyg ar gymdogaes iddynt, a oedd mewn oed mawr. Cynyddodd y galw am gosbedigaethau llym a llithrwyd yn fuan iawn i'r hen wendid Prydeinig hwnnw o geisio gosod y bai yn sgwâr ar ysgwyddau rhywun arall.

Pwy sydd ar fai tybed? Y rhieni yn ôl rhai, ac ysgolion meddai eraill. Ond wedyn, nid oes gan yr heddlu fawr i glochdar amdano y dyddiau yma chwaith, na'r drefn gyfreithiol yn llysoedd barn o unrhyw fath. Beth am y Gwasanaethau Cymdeithasol wedyn a'r Capeli a'r Eglwysi? Beth yw rhan y Llywodraeth yn hyn oll?

Ie, hawdd iawn yw gofyn cwestiwn ond anos yw ei ateb. Mae'n debyg mai sawl cyfuniad o'r uchod sy'n gyfrifol am y tebygolrwydd fod safonau cymdeithasol Gwledydd Prydain wedi dirywio. Ac eto, a fu dirywiad? Profa ystadegau fod lofruddiaethau babanod blwydd oed neu lai wedi syrthio tua 700% yn y chwarter canrif rhwng 1963 a 1988 ym Mhrydain. Mae'n debyg iawn fod y mwyafrif llethol o'r lofruddiaethau hyn yn deillio o riant neu rieni yn methu ysgwyddo'r cyfrifoldeb o fagu plentyn ifanc iawn sydd angen sylw am 24 awr y dydd. Wyddoch chi, mae'r teulu estynedig yn prinhaus cyn belled ag y mae magu wyrion a neiaint yn y cwestiwn. Ugain mlynedd a rhagor yn ôl, trefniant cyffredin oedd i Daid, a Nain yn enwedig, gynorthwyo gyda theulu mân ond yn yr oes ddirwasgedig hon, mae'n ofynnol i'r ddau bartner a'u rhieni hwythau hefyd fynd allan i weithio i grafu ceiniog gan adael mwy a mwy o rieni ifanc dibrofiad yn ddiymgeledd. Eto, mae'r tueddiad yma o lofruddio babanod yn lleihau. Oherwydd y lleihad hwnnw hwyrach y mae'r digwyddiad yn Lerpwl yn cynhyrfu cymaint arnom.

Gadewch inni osod sefyllfa eithaf realistig ichwi. Dywedwch eich bod ar faes un o'n Heisteddffodau Cenedlaethol, neu'n y Sioe Anifeiliaid, a'ch bod yn gweld plentyn bychan 3 neu 4 oed yn beichio crio oherwydd iddo golli golwg ar ei rieni. Beth fuasai'ch ymateb i'r sefyllfa? Haerwn mai greddf naturiol unrhyw oedolyn fuasai gafael yn llaw neu hwyrach godi'r plentyn i'w hafflau er ceisio dwyn cysur iddo a cheisio'i gynorthwyo i ganfod ei rieni. Ond, yn yr oes oleuedig hon, mae ofn yn bodoli yng nghefn meddwl rhywun — ofn o gael cyhuddiad o geisio cymryd y plentyn gyda'r bwriad o amharu arno. O anwybyddu'r mater wedyn, mae rhywun yn teimlo'n euog o adael y plentyn yn ei drallod.

Cofio sefyllfa wedyn o gerdded ar hyd y Ffordd Rufeinig yn Nant Ffroncon rai blynyddoedd yn ôl. Parcio'r cerbyn tua Ty'n-y-coed a phenderfynu teithio ar droed hyd at Lyn Ogwen ac i lawr yn ôl ar hyd yr A5. Pum munud ar ôl cychwyn, sylweddoli fod merch ifanc tua 18 oed yn cerdded rhyw ganllath o'm blaen. Rhag ofn dychryn y wraig ifanc, penderfynu dal yn ôl a gadael iddi hi ennill cryn dipyn o flaen arnaf. Ond, yn amlwg roedd hi'n mwynhau'r fro ac yn ymlwybro'n araf. Yn y diwedd, penderfynu dal ymlaen i gerdded gan ddod yn ddigon agos ati i sgwrsio ymhen rhai munudau. Ymddiheuro i'r ferch gan obeithio nad oeddwn wedi peri dychryn iddi ar ffordd mor unig felly a hithau'n ymateb iddi sylwi arnaf ond na fu iddi fy amau o gwbl. Bu inni gyd-gerdded gweddill y daith hyd at y Llyn gan drafod fel mae cymdeithas bellach yn achosi i ddau ddiniwed sy'n cyd-ddigwydd benderfynu mynd am dro ar hyd yr un ffordd yr un pryd amau cymhellion ei gilydd o beth oedd eu hunion fwriadau.

A dyna lle mae cymdeithas sy'n amheus o bopeth a phobun yn ein gadael, onide?

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen,
8 Nant Ffynnon.

Llongyfarchiadau i Meirion a Rhian Pritchard, Tŷ Isaf, ar ddathlu ohonynt eu Priodas Perl ar Fawrth 2.

Dymunwn adferiad buan i Mrs Rhian Pritchard a fu yn Ysbyty Gwynedd am driniaeth yn ddiweddar.



Mr Michael Owen a Mr Stanley Morgan yn cyflwyno sic ar ran Pwllgor Ras Gwn Nant Peris i gynrychiolwyr Meddygfa Llanberis, Deiniolen, Waunfawr a'r Felinheli. Derbyniodd y pedair feddygfa £125 yr un.

Ydy'ch Grŵp Cymdeithasol chi am CHWYLBRO!

CHWYLBRO!

- cynllun i ddatblygu ardal
- gweithgareddau ar gyfer grwpiau cymdeithasol Cymraeg eu hiaith (e.e. Clybiau Ffermwyr Ieuaic, Merched y Wawr, Yr Urdd, clybiau Cymraeg, a.y.b.)
- cyfle i lanw noson yng nghalendr eich grŵp cymdeithasol chi.

CEFNDIR

Dychmygwch sefyllfa ble mae'r awdurdodau yn awyddus i roi'r cyfrifoldeb o benderfynu ar ddyfodol ardal i'r bobl leol. Byddai gennych y cyfle i greu gwaith a chyfleusterau cymdeithasol drwy rannu adnoddau yn ôl eich blaenoriaethau chi.

BETH YW'R WEITHGAREDD?

Gweithgaredd difyr i gymryd tua awr a hanner yw Chwylbro! Bydd un person (o dan ofal Menter a Busnes) yn cynnal y sesiwn ar adeg sy'n addas i'ch grŵp cymdeithasol chi (yn ystod y nos neu'r dydd). Fe gewch wybodaeth am ardal ddychmygol — nid yn anhebyg i'ch ardal chi. Yna fe gewch y cyfle i benderfynu sut i rannu adnoddau rhwng gweithgareddau cymdeithasol, busnesau bach a mawr, ac i greu gweithgareddau eraill buddiol i'r ardal. Ar ddiwedd y sesiwn bydd gennych gynllun bro syml. Fe gewch y cyfle i gyd-drafod os yw rhai o'r syniadau yn berthnasol i'ch ardal chi. Byddwch yn sicr yn mwynhau'r profiad!

Trefnir gan ANTUR PADARN
mewn cydweithrediad â Menter a Busnes.
Am fwy o fanylion cysylltwch â
Robin Jones, Swyddog Datblygu'r Antur
ar (0248) 670140

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota




Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

BARRY'S GLASS

- am Ffenestri a Drysau UPVC
- Estimates am ddim
- Gwydr a gwydro o bob maint
- Ffenestri Gwydr Dwbl
- Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr.



CAMELOT, PENISARWAUN
871144 (Dydd) 871774 (nos)

ERIC JONES

PENISARWAUN

Ffôn: 872421

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

- ★ Prisiau rhesymol
- ★ Spreio tu mewn a thu allan
- ★ Estimates am ddim

Dyma'r erthygl gyntaf mewn cyfres newydd gan golofnwyr gwâdd sy'n byw yn mro'r Eco. TOM JONES, o Fethel yn wreiddiol ond sy'n byw ar hyn o bryd yn Neiniolen, sy'n cychwyn y gyfres. Ef yw Ysgrifennydd Lleol Undeb y Gweithwyr Trefnidol a Chyffredinol.

YN FY MARN I . . .

gan TOM JONES

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu fy ngwaith fel swyddog llawn amser gydag Undeb y Gweithwyr Trefnidol a Chyffredinol yn ddigon rhwystredig a digalon. O ganlyniad i bolisiau'r Llywodraeth colodd llawer o bobol eu gwaith, bu erydu ar wasanaethau'r Cyngor Sir, datgymalwyd Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, a disodlwyd y drefn Addysg.

Bu Gwynedd yn dioddef erioed o ddiweithdra uchel a diffyg cyfleon gwaith. Erbyn hyn mae'r sefyllfa yma yn Arfon yn waeth fyth. Dengys figurau swyddogol bod oddeutu 14% o'r gweithlu yn ddi-waith, ac mae hynny'n fy marn i yn wastraff o bobol, o dalent ac o arian y Llywodraeth a delir heb wneud defnydd o dalent pobol. Economeg y gwallgofdy yw hyn. Ac un o'i chanlyniadau yw'r cynnydd mewn troseddau. Mae gennym gannoedd o ieuencid heb waith a heb ddim i'w wneud. Rydym yn eu beio am sefyllian wrth gornel stryd ac am yfed yn y dafarn, ond tybed na ddylem yn hytrach feio'r Llywodraeth am y polisiau sy'n creu anobaith diweithdra a phrinder rhagolygon gwaith yn y dyfodol.

Rwyf hefyd yn sylwi ar effeithiau polisiau'r Llywodraeth ar wasanaethau o fewn llywodraeth leol. Mae'r gwasanaethau hynny wedi dirywio'n arw. Mae diffyg cyllid yn effeithio ar y gwasanaeth a gynigir i'r hen a'r methedig. Ydi hi'n iawn bod y rhai oedrannus sydd wedi gweithio am 30 neu 40 o flynyddoedd yn gorfod dioddef safon byw pitw ym mlynnyddoedd eu ymdeoliad.

Un o'r pethau pwysicaf mewn unrhyw gymdeithas wâr yw'r cyfleon addysgol a ddarperir ar gyfer plant a ieuencid. Un o'r buddsoddiadau pwysicaf y gallwn ei wneud ar gyfer y dyfodol yw Addysg. Sawl gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf y clywyd bod polisiau'r Llywodraeth yn seiliedig ar gael gwerth eich arian? Sut y gellir gosod pris ar addysg yn y tymor byr? Buddsoddiad dros gyfnod o ddeunaw mlynedd yw hwnnw yn addysg ein plentyn, a gall y toriadau a wneir heddiw effeithio ar ein plant am flynyddoedd i ddod. Eisoes mae prinder arian i brynu llyfrau ac i atgyweirio adeiladau'r

ysgolion, ac mae pwysau cynyddol ar ein hathrawon a gormod o waith papur yn rwystr iddynt wneud eu priod waith o ddysgu plant. Mae oriau glanhau yn cael eu cwtdogi, a hynny'n golygu bod safon glanhedra'r ysgolion yn gostwng; mae'r cwtdogi ar oriau gweithwyr y gegin yn golygu bod straen ar y gwasanaeth prydau bwyd ysgol hefyd. Nid dyma'r ffordd i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol.

Mae problemau mawr hefyd o fewn y Gwasanaeth Iechyd oherwydd polisiau'r Llywodraeth. Yr arian yw'r unig beth sy'n cyfrif wrth sefydlu Ymddiriedolaethau Awdurdod Iechyd, ac yn fy marn i nid gofalu am gleifion yw prif flaenoriaeth yr Ymddiriedolaethau hynny. Sawl gwaith clywsom am wardiau'n cau oherwydd prinder nyrsus? Mae'r rheiny gyda llaw yn gwneud gwaith ardderchog am gyflog bach. Sawl gwaith clywsom am y rhestru aros sy'n peri bod pobol yn disgwyl blwyddyn, deunaw mis a dwy flynedd am lawdrinieth? A'r peth sy'n eironig wrth gwrs yw bod modd cael y driniaeth dan law yr un doctoriaid yn aml o fewn wythnosau os gellir fforddio talu am 'fynd yn breifat'. Nid wyf yn gwrthwynebu Gwasanaeth Iechyd Preifat, ond yr wyf yn erbyn arfer meddygon y Gwasanaeth Cyhoeddus o gael practis preifat hefyd.

Mae tu 72% o weithwyr Gwynedd yn cael eu bywoliaeth yn y diwydiannau gwasanaethol, megis awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, twristiaeth a siopau. Dywedodd y Prif Weinidog yn ddiweddar bod angen cynhyrchu mwy o nwyddau yn y wlad hon. Bûm i'n dweud hynny am Wynedd ers blynyddoedd. Os nad oes digon o swyddi cynhyrchu ar gael, ni fydd gennym yr arian digonol i dalu am



yr holl wasanaethau angenrheidiol. A daw hynny â ni'n ôl at broblem diweithdra uchel a'i holl ganlyniadau. Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig iawn ac mae posiblirwydd ei ddatblygu ymhellach. Ond os na lwyddwn i greu swyddi cynhyrchu yn ogystal, mae perygl y bydd ein sir yn cael ei throï yn un maes chwarae mawr i rai brasach eu byd. Mae llawer o swyddi'r diwydiant twristiaid yn rhai rhan amser ac yn talu cyflogau bach. mae arnom angen hefyd swyddi go iawn â chyflogau da mewn diwydiannau cynhyrchu a thechnoleg.

Mae'n gwbl annerbyniol bod pobol draw yn San Steffan, na wyddant ac na ddeallant ddim am problemau Gwynedd, yn gwneud y polisiau sy'n effeithio arnom ni. Rwyf fi o'r farn y byddai democratiaeth leol yn fwy diogel yn nwylo Senedd i Gymru a fyddai'n llawer mwy abl i gynrychioli pobol Gwynedd a Chymru na'r un sydd gennym yn San Steffan ar hyn o bryd.

Mae'n hen bryd i bobol ddeffro a sylweddoli'r hyn sydd yn digwydd. Does dim sy'n fwy o rwystredigaeth na chlywed yr ymadrodd 'does dim byd y gallwn ni ei wneud am y peth'. Pe byddai'n cyndeidiau wedi dweud hynny, byddai'n byd yn llawer tlotach nag ydyw. Ac mae'n gyfrifoldeb arnom er eu mwyn hwy ac er mwyn ein plant i sicrhau na chaniatawn i'n cymdeithas ddatblygu'n un ddi-ofal a di-enaïd, a chyfoeth a hunan-les yn dduw newydd iddi.

DRAENOG



Dau gyn-bêldroediwr o'r chwedegau yn cyfarfod i hel atgofion mewn tafarn leol — a'r sesiwn yn mynd i ecstra-teim. Pêldroediwr 'fengach yn ymuno â hwy, a'u perswadio i symud i dafarn arall. Daeth yn ffwl-teim yn fannu hefyd, felly, adref a'r ddau am ginio a phenderfynu ail-afael ynddi at ddiwedd y pnawn. Lle gynt roedd angen iro'r cymalau â wintyrgrîn, bellach roedd rheidrwydd iro'r llwnc â wisgi. Wedi stop tap yn y dafarn, cafwyd acshon riplê yng nghartref un ohonynt — tan oria' mân y bore. O'r diwedd, penderfynu troi am adra (yn llythrennol felly!). Am bump o'r gloch y bore cafwyd yr ecs lefft wingar yn gogordroi o gwmpas Penisarwaun — yn hytrach na bod gartref yn Llanrug: wedi anghofio newid rownd hanner amser mae'n siŵr! Methu dallt rydw i pam nad oedd Mr Sionyn Williams yno i gadw golwg arno.

Cynhelir Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Peris yn Jerwsalem, Llanberis, am 2 a 6 o'r gloch, ddydd Sul, Ebrill 18.

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR



Dewis eang o
Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 650291

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Aelodau o Urdd Adran Bentref Bethel gyda'r ddwy Darian a enillwyd yn ddiweddar.

'Un funud fach ...'

CARREG FEDD

Ar yr olwg gyntaf dyna'r garreg fedd leiaf a welais erioed. Dim ond un gair oedd arni, a dim enw o gwbl. Ond roedd yr un gair hwnnw yn hynod o drawiadol. Mewn mynwent yn Sir Fôn y gwelais hi. Safai yng nghanol rhes o gerrig beddi ag arnynt enwau ac adnodau a phenillion. Rhyw liw glas oedd arni, ond nid llechen mohoni. Roedd yn debycach i ddarn o dun. A'r un gair? Y gair Saesneg 'Purchased'. O edrych o'm cwmpas gwelwn bod yno amryw o gerrig tebyg, â'r un gair ar y rheiny hefyd. Nid carreg fedd mohoni wedi'r cwbl, ond arwydd bach yn dynodi bod rhywun wedi talu am ddarn o dir y fynwent ar gyfer bedd erbyn amser ymadael â'r byd hwn.

Tybed a oedd Joesff o Arimathea wedi gosod y gair 'Prynwyd' wrth y bedd a roddodd yn fenthyg i'r Arglwydd Iesu. Claddwyd yr Iesu yn y bedd hwnnw, ond ymhen tridiau yr oedd yn ôl yn fyw.

Mewn bedd a brynwyd gan Joseff y rhoddwyd yr Un a ddaeth i brynu Joseff a'i debyg. Dod a wnaeth yr Iesu i brynu pechaduriaid. Yn union fel y telir pridwerth er mwyn rhyddhau ambell garcharor neu wystlon, mae'r Iesu wedi talu'n ddrud i ryddhau ei bobol, a sicrhau iddynt ryddid, a maddeuant a bywyd. Mae wedi talu'n ddrud trwy farw yn eu lle: ar y groes fe ddioddefodd gosb pechod yn lle ei bobol. 'Nid â phethau llygredd megis arian neu aur y'ch prynwyd, eithr â gwerthfawr waed Crist.' (1 Pedr 1:19)

Rhoddwyd y Prynwr Mawr mewn bedd, ac atgyfododd. Trwy ymddiried ynddo Ef y mae pobol yn cael bywyd ac yn dod i berthyn i Dduw am byth. Pobol wedi eu prynu gan yr Iesu yw Cristnogion felly. Pobol ydynt heb fath o hawl ar gariad Duw; heb fath o hawl ar y bywyd tragwyddol; heb fath o hawl bod yn bobol Dduw. Ond mae'r Iesu wedi prynu'r holl bethau hyn iddyn nhw.

Mae'r gair a welais ar yr arwydd yn y fynwent yn addas ar gyfer carreg fedd Cristion sy'n gwybod mai ei obaith mawr yn wyneb marwolaeth a'r bedd yw ei fod wedi ei brynu gan yr Iesu. Dymunaf Basg dedwydd i chi.

JOHN PRITCHARD

GERDDI GLASCOED

(Ger Capel Glascoed)

PENISARWAUN

I'ch gardd
fod ar ei orau
galwch heibio
neu ffoniwch

870453

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Fêlinheli 670726

Diolch: Dymuna Aled Griffiths, Llwyn Eithin, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed ar Chwefror 26.

Llongyfarchiadau i Maud a Huw Dulydd Williams, Deulyn, ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf a hefyd i Peter a Carys Bryfdir Jones eu wŷr cyntaf.

Enillwyr Clwb 200 Neuadd Goffa Bethel am fis Chwefror — £20: Mona Williams, 9 Bro Rhos (175); £10: Joyce Pugh, 9 Tan-y-buarth (130); £5: Beryl Jones, 25 Bro Rhos (145); Mair Jones, Glan Gors (43); Ruth Jones, 9 Y Ddôl (158); Alwyn Jones, Rhos-lan (148); Eirlys Williams, 20 Y Ddôl (96); Elizabeth Rowlands, Almira (141); M. B. Garnett, 1 Rhos Alun (19); Jackie Jones, Tŷ Catrin (44).

Yr Urdd: Diolch i bawb a gefnogodd y Noson Goffi yn ddiweddar, gyda phlant y gangen yn cymryd rhan. Enillwyd y raffl gan Pat Hughes ac Eryl Roberts. Cyflwynwyd tocyn anrheg i lorwerth Williams, Mair Read a Glenys Griffiths fel gwerthfawrogiad o'u llafur yn paratoi'r plant tuag at Eisteddfodau'r cylch.

Ni ddaeth llwyddiant eleni i'r plant o dan 12 oed, ond bu'r plant o dan 15 ar y llwyfan mewn nifer o gystadlaethau yn yr Eisteddfod Cylch a Sir, gyda'r canlyniad fod Cangen Bethel wedi ennill dwy darian am yr Adran Bentrif gyda'r mwyafrif o farciau yng nghylch Arfon ac yn Sir Eryri. Fe ddaeth un parti adrodd, o dan hyfforddiant lorwerth Williams, yn gyntaf ac felly byddant yn cystadlu yn y Genedlaethol yn Abertawe a Lliw ddechrau mis Mehefin. Pob dymuniad da iddynt.

I ddiweddu gweithgareddau wythnosol y Gangen am y flwyddyn, aeth llond bws o blant, a rhai rhieni i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon am noson o chwaraeon. Diolch i bawb am bob cymorth yno, ac yn ystod y flwyddyn.

Cymdeithas Cŵn y Deillion: Cynhelir noson o Baned a Chân ar nos Lun, Ebrill 26, gyda Pharti Clychau'r Grug yn diddanu yn Ffestri Cysegr am 7 o'r gloch. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at Gymdeithas Cŵn y Deillion. Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr: Dathlwyd Gŵyl Ddewi yn neuadd yr Ysgol Gynradd ar nos Fercher, 10 Mawrth, dan lywyddiaeth Mrs Rhian Hughes. Agorwyd y noson gyda'r aelodau yn canu anthem Merched y Wawr dan arweiniad Mrs Glenys Griffiths. Traddodwyd gweddi fer gan Mrs Mair Read cyn i'r aelodau fwynhau lluniaeth ysgafn a oedd wedi ei baratoi gan y pwyllgor.

Llongyfarchwyd Mrs Mair Jones ar enedigaeth wŷr a nifer o'r aelodau a fu'n dathlu eu pen-blwydd yn ddiweddar. Hefyd fe longyfarchwyd Mrs Glenys Griffiths ar ei llwyddiant gyda'r côr dan 15 oed yn Eisteddfod Cylch yr Urdd a'u mab, Dewi, ar ei llwyddiant yn y gystadleuaeth offeryn pres yn yr un eisteddfod. Cydymdeimlwyd â Mrs Edwina Morris ar golli ei thad-yng-nghyfraith yn ddiweddar.

Y gŵr gwadd oedd Mr Maldwyn

Parry, Pen-y-groes, a chafwyd noson gartrefol yn ei gwmni yn sôn am ei yrfa ym myd cerddorieth ac yn canu nifer o ganeuon adnabyddus gyda Mrs Glenys Griffiths yn cyfeilio iddo. Diolchwyd iddo ar ran y gangen gan Mrs Rita Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Jennifer Roberts a Mrs Mair Price.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y trydydd nos Fercher yn y mis, sef Ebrill 21, pryd y disgwyliwn Mrs Sidie Roberts a Mrs Beti Jones atom i drafod a dangos hen ffasiynau. Cystadleuaeth y mis fydd 'Eich Gwisg Briodas'.

Yr 'Eco' ar Dâp: Ers bron i flwyddyn bellach mae tîm bychan yn darllen Eco'r Wyddfa yn fisol i'w recordio ar dâp ar gyfer y deillion. Mr John Owen, Penrhyn Bach, Llanrug, sy'n gyfrifol am ddod a'r darllenwyr at ei gilydd. Yng nghartref Mr Owen mae'r darllen yn digwydd mewn ystafell bwrpasol ar gyfer recordio'r tâp. Y rhai sydd yn darllen yr Eco yn fisol yw Nora Parry, Goronwy Jones a Myfanwy Jones, y tri o Fethel. Cânt bleser o wneud y gwaith ac mae'r ymateb oddi wrth y rhai sy'n derbyn y tapiau yn galonogol. Cymdeithas Gogledd Cymru i'r Deillion sy'n gwneud copiâu o'r tâp ac yn ei ddosbarthu. Mae Mr Owen hefyd yn darparu tâp o'r Herald Gymraeg yn wythnosol. Carwn ddiolch i Mr Owen am ymgymryd â'r gwaith yma ac i Mrs Owen am y baned dderbyniol ar ddiwedd y darllen bob wythnos.

Clwb Ffermwyr Ieuaing Caernarfon: Bu'r Clwb yn cyfarfod yn wythnosol ers mis Ionawr a chafwyd ambell

noson ddiddorol. Aeth ugain o'r aelodau i Glan-yr-afon, Pontrug, i geisio chwarae golff a chafwyd hwyl garw yn taro'r hanner cant o bel ar draws y cae. Bu'r Heddwas Stephen Owen yn treulio noson gyda ni yn sôn am ei gyfrifoldeb fel plismon â gofal arbenig am amaethyddiaeth. Ei hanes fel gwas fferm gawsom gan y Parchg W. R. Williams a'r troeon trwstan a fu mor agos i fod yn drychinebau! Helfa Drysor yn dilyn map o Fôn a gawsom gan Gareth Hughes, y trefnydd. Myfanwy, Helen, Gwenno a Rhys oedd yn fuddugol.

Cystadlaethau'r Sir: Bu Aled, Tudur, Bethan a Wendi yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus i rai dan 21 oed yn Nyffryn Nantlle ar ran y Clwb. Daethant i'r brig a chafodd Aled a Wendi eu dewis i dîm Eryri. Buont yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cymru ar ddydd Sadwrn, Mawrth 13, ac fe wnaethant eu gorau yno er na ddaethant i'r brig.

Cynhaliwyd cystadleuaeth nofio'r sir ym Mhwl Nofio Bangor. Aled, Bethan ac Iwan fu'n cystadlu ar ein rhan. Gwnaethant yn dda iawn eto eleni drwy i Aled gael dau gyntaf, Bethan gael cyntaf ac ail ac Iwan dau ail. Yng Nghanolfan Arfon y cynhaliwyd cystadlaethau Badminton a Tennis Bwrdd. Tudur, Bethan, Elwyn a Llinos fu'n cynrychioli'r Clwb — ni ddaethant i'r brig ond diolch iddynt am gystadlu.

Y Ffederasiwn: Mae Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuaing Eryri yn dathlu ei hanner can mlwyddiant eleni. Buom yn ceisio darganfod peth o hanes dechrau Clwb Caernarfon a phryd y dechreuodd. Os oes gan unrhyw un wybodaeth am ddechreuad y Clwb a fuasech cystal a chysylltu â Myfanwy Jones ar (0248) 670071.



Mrs Pat Jones ar ei hymddeoliad fel gweinyddes feithrin yn Ysgol Bethel. Cyflwynwyd y siec gan Cheryl Morris a David Peters (disgyblion Blwyddyn 6).

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Cynhaliwyd cyfarfod ffarwelio â Mrs Pat Jones, y weinyddes feithrin, yn yr ysgol ar fore lau, Mawrth 11. Mae Mrs Jones yn ymddeol wedi iddi roddi blynyddoedd o wasanaeth i Ysgol Bethel. Cyflwynwyd rhodd i Mrs Jones ar ran y rhieni, plant, staff a'r llywodraethwyr gan Cheryl Morris a David Peters, dau o ddisgyblion Bl.6. Dymunwyd yn dda iddi i'r dyfodol gan y Prifathro, Mr Ian Pierce.

Yn ystod yr wythnos 15-19 Mawrth bu holl blant Bl.6 ar gwrs wythnos yng Ngholeg Glynllifon. Cawsant flas ar fywyd y Plas yn y ganrif ddiwethaf a chael oriau o gerdded i weld rhyfeddodau'r stad. Bu Mr Pierce yn gofalu am y plant am ran o'r wythnos a Mrs A. Elis am y rhan olaf. Cafodd y plant gyfle i fwynhau cwmni plant o ysgolion o

gylch Llandudno. Balch iawn oedd eu gweld yn ôl yn sâff er yn flinedig iawn!

Daeth Mr Selwyn Griffith, gynt o Fethel, i wasanaeth yr ysgol yn ystod y mis. Rhoddodd sgwrs ddifyr iawn i'r plant yn dilyn ei ymweliad â'r Gambia ar gyfandir Affrica. Gwelodd y plant luniau o Mr Griffith yn cyflwyno defnyddiau addysgol — pensiliau a phapur — a roddodd yr ysgol iddo'n anrheg i blant y Gambia. **Enillwyr Clwb Cant Ysgol Gynradd Bethel am fis Mawrth:** £20: Nerys Pritchard, 42 Bro Eglwys; £15: Nina Jones, 10 Trem-y-foel, Y Felinheli; £10: Gwenan Heledd, Eithinog; £5: Ian Pierce, Swyn-yr-awel, Llanrug; £3: R. R. Parry, 4 Rhos-lan.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Bydd y gwobrau nesaf yn cael eu tynnu ar ddydd Llun, Ebrill 19.

CHWILOTA PLANT ANGHYFFREDIN



Mae rhyw gywreinrwydd yn perthyn i'r natur ddynol sy'n ennyn diddordeb yn yr 'annaturiol'. Does dim ond darllen rhai o bapurau dyddiol 'poblogaidd' ein hoed ni i sylweddoli hynny. Ond yr un fu'r natur ddynol o oes i oes, ac o bori drwy ôl-rifynnau *Yr Herald Cymraeg*, buan iawn y sylweddolir fod yr annaturiol a'r anghyffredin yn cael cryn sylw yn yr oes a fu hefyd. Dyma bigion am blant neu enedigaethau anghyffredin o'r fro ganrif a mwy yn ôl.

Ar 10 Medi 1878 rhoddodd Elizabeth Williams o Benisarwaun enedigaeth i dri o blant — un bachgen a dwy eneth. Mae'n amlwg nad digwyddiad cyffredin mo hyn, ac anfonodd y Cofrestrwydd Plwyfol y wybodaeth i'r Frenhines, gyda cais am gymorth ariannol. Ar 2il o Hydref, derfyniodd yr ateb canlynol o Balas Buckingham:

'Lieutenant-General Ponsby is commanded to acknowledge the application of Elizabeth Williams, and to send the enclosed P.O. for three pounds as a donation from H.M. the Queen.'

Tybed pwy oedd y tri hyn? Mae'n bosibl iddynt fod yn daid neu'n neiniau i rywrai sy'n fyw heddiw.

Bron i flwyddyn union cyn hyn, ceir achos llys yn erbyn William Jones, crydd o Gwm-y-glo, a wysiwyd gan Fwrdd Ysgol Llanrug am beidio anfon ei dri mab i'r ysgol. Doedd dim yn anarferol iawn yn hynny; ond roedd enwau braidd yn od gan ddau o'r tri bachgen — William Edward, Prince Arthur a Leopold Aurelius. Barnai y fainc 'mai rhy ddrwg oedd esgeuluso addysg plant tywysogaidd fel hyn,' a dirwywyd y tad i bum swllt. Esgus y tad dros gadw'r 'tywysogion' o'r ysgol oedd eu bod yn wael.

Ar Fawrth yr 28ain 1830 ganwyd efeilliaid i wraig William Thomas, Llanberis. Dyma'r cofnod cyntaf hyd y gwn i o eni efeilliaid 'Siamese' yn y fro. Cawsant eu geni wyneb yn wyneb, wedi eu cysylltu wrth y stumog a'r frest, a'u breichiau am ei gilydd. Roeddynt tua pymtheg modfedd o hyd, ac yn pwysu naw pwys yr un! Roedd gwallt un yn llawer tywyllach na'r llall. Yn anffodus roedd y ddau yn farw-anedig.

* * * *

FFYNNON CHWERTHIN

Mae'r ddadl yn parhau ynglŷn â lleoliad y ffynnon hon. Diolch i Gwyn Davies o Lanrug am fy nghyfeirio at lyfr Myrddin Fardd: *Llen Gwerin Sir Gaernarfon*, sy'n nodi fod y ffynnon yng nghyffiniau Llanberis — ond na roddir lleoliad pendant. Anfonodd Mrs E. M. Williams, 13 Ffordd Deiniol, Deiniolen, lawysgrif i mi ar *Hanes Gwaen Gynfi*, ac ynddi mae'r canlynol:

'Dywedir hefyd bod ffynnon wedi bod a elwid Ffynnon Chwerthin, ac y byddai yr hen bobl yn mynd ati i gael rhyw gyfrinach ganddi o'r dyfodol, neu hysbysrwydd am ryw eiddo colledig, a diau fod y pethau yn wedi codi ofn ar lawer. Gwyddom erbyn heddiw fod y pethau ofergoelus hyn wedi darfod o'r tir, ni obeithiwn, ac fod y ffynnon honno

wedi cael ei chwerthin o fodolaeth ers llawer dydd.'

Does dim dyddiad nac enw awdur wrth y llawysgrif.

Cefais hefyd fenthg copi o lyfr *Hanes Waen Cynfi*, gan John Hughes, Fronheulog, Dinorwig, a gyhoeddwyd yn 1868. Mae yntau hefyd yn cyfeirio at y ffynnon:

'... gerllaw Ebenezer — ni allech fynd i'w goltw un amser na wnae chwerthin arnoch, yn ôl syniad yr hen bobl am ei chwerthin; yr achos ohono, mae'n debyg, oedd crynfa y ddaear wrth i ryw un gerdded ati, yn cynhyrfu yr awyr yn y ddaear, nes iddo weithio allan drwy y ffynnon, nes peri i fân lygaid gloywon chwarae yn y dŵr ac ar ei wyneb, fel y gwelwch yn fymych pan fydd yr awyr wedi mynd i ddwfr. Byddai y ffynnon yn llawn o gyr, a'r rhai hynny wedi eu llenwi â phinnau (celfi y twichio omide?), a byddai y trigolion yn rhybuddio eu plant yn ddifrifol i beidio cyffwrdd â'r gyr a'r pinnau, ac i beidio er dim ag yfed dŵr y ffynnon.'

Mae'n amlwg fod cryn ddiddordeb wedi ei ennyn yn y gwahanol fynhonnau, oherwydd derbynias ddau gais arall yn ystod y mis — y naill yn holi am Ffynnon Efa (ai ar dir Nant Efa, Llanddeiniolen y mae'r ffynnon?), a'r llall yr holl ffordd o Awstralia, yn holi am Erw Ffynhonnau. Mae lleoliad Erw Ffynhonnau yn wybyddus i mi, ond a oes gan unrhyw un o'r darllenwyr wybodaeth am unrhyw un o'r ddau le uchod?

* * * *

HANES TEULUOEDD

Daeth galwad ffôn o Lundain gan Mr Meurig Owen (gynt o Lanrug) ynglŷn â theulu Parry, Bryn Hafod. Dywed fod hanes cysylltiadau'r teulu â chapel Llanrug i'w cael yn *Hanes yr Achos Methodistiaidd yn Lanrug* gan y Parch. J. Eiddon Jones. Credai hefyd fod y diweddar 'Harri'r Barbwr' o Bontrhythallt yn un o ddisgynyddion y teulu. Fe ddylai darllenwyr hŷn yr *Eco* o Lanrug wybod am y cymeriad hwn, a chafwyd peth o'i hanes yn rhai o rifynnau cynharaf yr *Eco*.

* * * *

GLAN PADARN

Trwy law'r golygydd daeth cais o Wolverhampton ynglŷn â Thomas Davies Thomas, neu a rhoi iddo ei enw mwy adnabyddus: Glan Padarn, awdur y gerdd 'Hen Ffon fy Nain'. Fe'i ganed yn Nhy'n y Chwarel, Dinorwig, a phriododd â merch tafarn Clwt y Bont. Ymddangosodd nifer o'i ganeuon yn *Yr Herald Cymraeg*, ac ar achlysur ei briodas yn 1876, ysgrifennwyd yr englyn canlynol gan ei gyd-oeswr a'i gyfaill, Elidirfab:

PRIODAS GLAN PADARN

Yn wir cest wraig lân ac annwyl — Mair dda
Mor ddel yn ei gorchwyl;
Eto gwél, i ti gael hwyl,
Brysied 'dyn bach' i'th breswyl.

Cyhoeddwyd chwech o benillion gan Gwerydd Wylt Bethesda yn *Yr Herald Cymraeg* (Tachwedd 1876) ar achlysur priodas Glan Padarn hefyd. Tybed a oes darllenwyr o fro *Llais Ogwan* sy'n gwybod rhywbeth am y bardd hwnnw?

Os oes unrhyw wybodaeth ar gael am Glan Padarn, gellir cysylltu â Valmai Williams, 61 Elizabeth Avenue, Goldthorn Hill, Wolverhampton WV4 5BE, neu anfonwch ataf fi: Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Ffôn: (0286) 673515.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Gwener

10.00 — 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch

Llanberis 870922

neu Bangor 351427

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

NBC

- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

CHIROPODIST

Am wasanaeth
trin traed yn eich
cartref ffoniwch

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

675754

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr Clwb 300 am fis Chwefror — £40: Mrs H. Basterfield, Ty'n Rhodd; £25: Mr J. G. Jones, Hafod y Rhug; £10: Mr Emrys Hughes, Treflan Isaf.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â Mrs Yvonne Beech, Rose Mount, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, y diweddar Mr Dafydd John Griffith, Tref Eilian.

Diolch: Dymuna Yvonne a'r teulu ddiolch i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn â Mr Keller, Stad Newydd Croesywaun, yn ei brofedigaeth o golli ei dad yn yr Almaen.

Priodas: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ian Johnstone, Tŷ Gwyn, ar ei briodas â Samantha o Benisarwaun. Maent wedi cartrefu yn Gloucester.

Dymunwn yr un hapusrwydd i Beverley a Jonathan, Stad Tŷ Hen, a briodwyd yn ddiweddar.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mrs N. Roberts, 2 Dôl Erddi, ar ddod yn hen nain. Ganwyd merch fach, Tracy Ann, i'w hŵyr Clive a'i wraig Janice yn Llanrug.

Llongyfarchiadau i Aeron a Siân, Glyn Ceris, ar enedigaeth eu merch fach, Catrin Elin, ac wyres fach i Gareth a Jeni.

Diolch: Dymuna Aeron a Siân ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Catrin Elin.

Dathlu Pen-blwydd: Ar y 13 Mawrth dathlodd Gerallt Williams, Tros-y-gors, ei ben-blwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iti i'r dyfodol Gerallt.

Llwyddiant ym myd Chwaraeon: Llongyfarchiadau i Peter Roscoe, Tŷ Ni, ar dderbyn gwobr a chanmoliaeth gan Gyngor Chwaraeon Arfon am ei lwyddiant ym myd chwaraeon.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Evan Hughes, Pandi, 3 Tref Eilian a Mr Glyn Williams, 17 Tre Eilian, mae'r ddau yn yr ysbyty ym Mangor ar hyn o bryd.

Croesawn Mr Wyn Griffith, Ger y Nant adref o'r ysbyty gan ddymino adferiad iechyd llwyr a buan iddo.

Anfonwn ein cofion hefyd at Miss Jennie Jones, Bryn Tirion, sydd wedi gorfod mynd i Ysbyty Eryri am

ychydig ddyddiau.

Ar y teledu: Yn ystod gwyliau'r Pasg bydd Rhodri Sion, Pant Teg, i'w weld yn cymryd un o'r prif rannau yn y sioe gerdd 'Magdalen' ar y teledu.

Tristwch: Daeth y newyddion am ddamwain angeuol Rhian Siencyn o Ddolgellau a thristwch i'r ardal. Magwyd Rhian yma yn y Waun. Anfonwn-ein cydymdeimlad dwysaf at ei theulu yn eu colled fawr.

Ymdeol: Dymunwn ymddeoliad hapus i Mrs Llinos Dunwidy, Garth, sydd wedi ymddeol o'i swydd fel athrawes yn Ysgol Syr Huw Owen. Hefyd i Mr a Mrs Greasley, Min Afon, sydd wedi ymddeol yn ddiweddar.

Llwyddiant: Gyda balchder lleol y clywsom am lwyddiant gŵr o'r ardal a ddaeth i sylw cenedlaethol yn ddiweddar. Llwyddodd Dylan Iorwerth, Cartrefle gynt, i ennill y teitl 'Newyddiadurwr y Flwyddyn' yng Nghymru yn sgîl gwaith a safon gyda'r uchaf yn y maes newyddiadurrol.

Adran yr Urdd: Wrth i'r Eco fynd i'w wely mae tymor adran yr Urdd yn tynnu at ei derfyn.

Cawsom noson ddifyr ar nos Fercher, Chwefror 25, pan ddaeth Mr Dafydd Thomas tom i roi sgwrs ar Ynys Enlli. Roedd y plant wrth eu bodd yn gweld y sleidiau yn dangos bywyd gwyllt yr ynys.

Cyngerdd gawsom ni ar y nos Fercher ganlynol wrth i'r plant berfformio y gwahanol eitemau ar gyfer yr Eisteddfod Cylch a gynhaliwyd y Sadwrn canlynol.

Roeddem yn ffodus ar ein hymweliad â'r orsaf injan dân yng Nghaernarfon gan ein bod wedi dewis y noson pan oedd y dynion yn ymarfer, ac fe welwyd yr injan dân yn cael ei galw allan.

Mrs Carys Owen ddaeth atom i wneud cwis i'r plant ar Fawrth 17 a mawr oedd y gweiddi wrth i'r marciau terfynol gael eu cyhoeddi.

Pob lwc i'r plant sy'n cymryd rhan yn yr Eisteddfod Sir.

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol yr Adran ar nos Fercher, Ebrill 21, am 6.15 o'r gloch. Os oes gennych blant yn mynychu'r adran — dowch, plis. Mae gwir angen mwy o aelodau ar y pwyllgor i helpu ar gyfer y tymor nesaf.


Yr Ysgol Feithrin: Dydd Sadwrn, Mawrth 20fed, cynhaliwyd stondin gacennau ar Faes Caernarfon gan rai

o rieni ac aelodau pwyllgor yr Ysgol Feithrin. Gwnaed dros £60 o elw. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd gacennau ac amser i wneud y stondin yn llwyddiant. Diolch hefyd i bawb a alwodd heibio i brynu cacen.

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi yn y Ganolfan ar nos Lun, Ebrill 19, am 7.30 o'r gloch. Erfynnir am bresenoldeb yr holl rieni ynghyd ag aelodau'r pwyllgor.

Os am i'ch plentyn fynychu'r Ysgol Feithrin o fis Medi 1993 ymlaen, cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor neu galwch i mewn i'r Ysgol Feithrin (yn Y Ganolfan foreau Llun, Mawrth, lau a Gwener rhwng 9.15 a 11.15 o'r gloch).

Mae ar y Cylch Meithrin angen offer (megis beic, tractor, coets babi dol) at ddeunydd y plant. Os oes gennych rai i'w gwerthu am bris rhesymol cysylltwch â'r ysgrifenyddes, Liz Daniel (Waunfawr 650485) neu'r trysorydd, Shirley Parry (Waunfawr 650426) gyda'r manylion.



Llongyfarchiadau i Caitlin Wroe a dderbyniodd dlws yr ail safle yn y gystadleuaeth merch ifanc fwyaf addawol yn Noson Wobrwyo Chwaraeon Arfon. Gweler y stori'n llawn ar y dudalen flaen.

MENTER NEWYDD

Ar ddechrau'r mis bydd Eryl Roberts o Lanrug a Siân Griffith o'r Waunfawr yn gorffen gweithio i Wasanaeth Cymdeithasol ac Awdurdod Iechyd Gwynedd ac yn mentro ar fusnes newydd eu hunain.

Byddant yn cynnig Gwasanaeth Therapi galwedigaethol i bobol anabl, i bobol sydd angen help wedi gwaelled a hefyd i'r rhai sy'n gofalu am y bobol yma.

Bydd cyngor i'w gael ar sut i

addasu tai a mannau gweithio ar gyfer yr anabl a help i drafod unrhyw broblem a gyfyd yn y maes yma.

Dyma'r unig wasanaeth preifat o'i fath yng Ngwynedd ac ymfalchiwn mai yma ym mro'r Eco mae'r fenter yn cychwyn.

Dyma sialens yn wir, a dymunwn yn dda iawn i Eryl a Siân, mae ganddynt sawl prosiect mewn golwg.

Os hoffai unrhyw un ychwaneg o wybodaeth neu os ydych angen help cysylltwch ag Eryl Roberts neu Siân Griffith ar 675384.



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

Heliwch eich traed am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470**



GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



O SIAMBAR SELWYN

Dyrchafais fy llygaid tua'r mynyddoedd y dydd o'r blaen, ac er fod Cadernid Gwynedd 'oll yn eu mentyll gwynion' mentrais ddilyn trwyn y car i gyfeiriad Dyffryn Ogwen.

Roedd carped o eira ar lawr a llithrais yn wyladwrs heibio i Dyn-y-maes gan nadreddu'm ffordd at Lyn Ogwen, a chael Tryfan — Efnisien Eryri — a'i gadernid balch, yn fur creigiog o arian o'm blaen.

'Llofrudd o fynydd wyf fi,' meddai un o'n prifeirdd am y mynydd hwn — llofrudd y bu miloedd o raffau yn hongian am ei wddf, ac yn pendilio uwch ei greigiau danheddog — ond llofrudd serch hynny na chafwyd ef yn euog gan yr un crwner o lofruddio yr un dringwr, a feiddiodd dresmasu ei stâd. Na, y 'gŵr hoff o graig a rheffyn' sy'n euog bob tro o dorri rheolau'r mynydd.

Mae'n debyg mai yn y dechreuad y crewyd ei gamp, pan ruodd terfysg erchyll yng nghrombil y ddaear, gan falurio ei chrystyn brau, a chwydu'r creigiau fel gwaddod drwy eigion dyfroedd, i ymgaedu yn haen ar haen.

Dichon hefyd mai rhyw fwystfil beiddgar a fentrodd gyntaf arloesi ei ffordd tua'i grib, gan lusgo ei gawraidd gorff tuag at ei 'Adda' a'i 'Efa'. Mae'n bur debyg hefyd i'r mynydd ysgithrog hwn roddi cilfach yn ffau i sawl llwynog, a lloches i sawl eryr gael sangfa i'w nyth, cyn i ddyn a'i gynllwynion ddod a chyffro rhyfeloedd i Ddyffryn Ogwen.

Dychmygais weld y gaer greigiog hon yn amddiffynfa i'r Brythoniaid dewr, ac yn darian i'r Celtiaid ym mwrwydr eu rhyddid. Yma'n sicr y bu annibyniaeth Gwalia yn llechwraidd lercian. Bu gwaed y dewrion yn rhuddo'r llechweddau hyn, a bu stormydd canrifoedd yn dygn sgwrio

ei farc oddi ar greithiau'r graig.

Ond y dydd o'r blaen roedd Tryfan dan fantell o eira a sŵn rhyfeloedd ymhell o'r fro. Ei falchder mud o dan goban wen, a thawelwch yn teyrnasu. Dim ond rhuthr ambell i gar salŵn, a thuchan ambelli lori ar yr A5, a bref ambell i ddafad o'r ucheldir — dyna'r cyafn a dorrai ar y distawrwydd.

Nid oedd cadernid balch y mynydd yn denu'r dringwyr, ac nid oedd heddwch ei lwybrau troellog yn croesawu'r sawl a ddymunai nadreddu eu ffordd tua'i grib gan i'r rhew a'r eira barlysu'r cyfan.

Ond cyn hir daw tymor y dringo drachefn ac fe ddylifa'r miloedd o'r dinasoedd i dderbyn her ei binaclau, ac i ateb galwad anorod ei greigiau. Dadlennir gogoniant Eryri i'r sawl a barchant y garwedd, ond gwaie y rhyfygus rai a feiddiant bendilio wrth rimyn o raff uwchben ei glogwyni. Ie, llofrudd o fynydd yw hwn, ac angau yw gwobr y sawl a'i dirmyga, fel y canodd y Prifardd Emrys Edwards:

*Ar ddibym llwyd lladdwyd llanc
O'i nwyf aeth rhywun ifanc,
I'w drist-cyn-ei-amser-dranc.*

*Gŵr hoff o graig a rheffyn,
Baw a gwaed ar wyneb gwyn,
A briwiau — mab i rywun.*

Ni fentrais innau y dydd o'r blaen gam ymhellach na'r gamfa goed ar ochr y briffordd. Pwyso ar honno i hel meddyliau — dychmygu'r gorffennol — edmygu mawredd mud y mynydd — a'i ofni.

Yna troi trwyn y car am adre, a dychmygu clywed sŵn Tryfan yn sibwrdd — sibwrdd geiriau fy hen gyfaill, Rolant o Fôn, yn ei awdl 'Y Graig':

*Hen wyf a chadarn hefyd
Hŷn na balch awenau byd.*

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Eglwys M.C. Brynrefail: Mewn gwasanaeth arbennig a gynhaliwyd ar nos Sul, Mawrth 21ain, derbyniwyd dau o ieuencid yr Eglwys yn gyflawn aelodau, sef Martin Owen ac Owain Gwyn. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd yn ystod yr oedfa gan y Gweinidog, y Parchg John Morris, ac anerchwyd y cymunwyr ieuainc gan Mr Bertie Ll. Roberts.

Cymdeithas y Chwiorydd: Bydd y Gymdeithas yn ymgynnull yn eu cyfarfod cyntaf yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf nos lau, Ebrill 1af. Y siaradwr gwadd fydd Miss Lola Llywelyn Griffith, Y Waunfawr.

Dymuno'n dda: Ein dymuniadau gorau i'r dyfodol i Mrs Pat Jones, Cae Coch, sydd wedi ymddeol o'i swydd fel gweinyddes feithrin yn Ysgol Gynradd Bethel. Cyflwynwyd rhodd iddi am ei gwasanaeth i'r Ysgol am gyfnod o ddeng mlynedd mewn cyfarfod arbennig yn neuadd yr ysgol fore lau, Mawrth 11eg.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â Mrs Jennie Maxwell, Bro Dawel, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd-yng-nghyfraith, Mr John Hughes, Rhosbodrual. Bu ef a'i briod Mair Hughes a'r plant, Falmi ac Aneurin, yn cartrefu yn Isallt, yn y pentref flynyddoedd yn ôl ac anfonwn ein cydymdeimlad dwys â hwy fel teulu yn eu colled.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r gangen leol yn y Festri, nos Lun,

Mawrth 15fed, dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones, Cae Coch. Cafwyd arddangosfa o drefnu blodau sych a blodau ffres gan Alwyn a Sarah Jones, Racca. Enillwyd gwobr y mis, sef trefniant o flodau sych, gan Mrs Carol Houston. Dymunwyd yn dda i Mrs Mair Williams sydd ar fin mynd i'r ysbyty ac anfonwyd y trefniant o flodau ffes iddi. Mrs Jennie Roberts a Mrs Euronwy Roberts oedd yn trefnu'r baned.

Bydd elw'r Bore Goffi dan nawdd Grŵp Gwyrfaei a gynhaliwyd yn yr Institiwt Caernarfon ar Fawrth 27ain, lle bu cangen Brynrefail yn gyfrifol am y stondin gacennau, yn mynd at ŵyl 'Pedwar Tymor' a gynhelir ym Mhorthmadog. Bydd cangen Brynrefail a Llanberis yn cymryd rhan mewn dawns cysylltiedig â thymor y gwanwyn. Bydd cyfarfod nesaf y gangen ar nos Lun, Ebrill 19eg.

Ysgol Gymuned Cwm-y-glo: Os oes gennych blentyn fydd wedi cyrraedd ei bedair oed cyn diwedd mis Awst eleni, yna mae'n bwysig eich bod yn ei gofrestru ar lyfrau'r ysgol rŵan.

Mae croeso cynnes i chwi ddod i gael sgwrs a chyfarfod â'r athrawon. Fe gewch y ffurflen angenrheidiol yn yr Ysgol.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

CABS LLANRUG



C'fon 675951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

MODURDY PLAS BACH CAEATHRO

Ffôn: C'fon 672072

Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

AMDDIFAD YN LIMBO

Bu farw fy mam o'r diciâu, a chladdwyd hi ym mynwent Glanadda, Bangor, ar y cyntaf o Fai, 1920.

Rhedai'r rheilffordd y tu ôl i'r tŷ ym Mhwlheli lle y trigem ar y pryd. Gorfu i ni ddod o'r India oherwydd iechyd fy mam, a chafodd fy nhad waith dros dro yn edrych ar ôl y Drill Hall. Rhedem ni blant i'r cowt pan glywem ddwndwr y trên yn nesu, a safem i godi llaw arno wrth iddo fflachio heibio. Yna'n ôl â ni i'r tŷ tawel.

Yn y pellter clywem sŵn y tonnau'n disgyn ar y traeth a sgrechian gwyllanod. Cofiaf fynd yn llaw rhyw eneth hŷn ar draws y twyni i ffermdy i nôl llaeth enwyn mewn piser. Roedd y llwyni eithin ar bob llaw yn llawn blodau melyn fel mwclis, ac aroglau almon ar y petalau. Cawsai Evelyn fy chwaer, a oedd yn flwyddyn a hanner yn hŷn na mi, fynd i'r ysgol. Câl fy mrawd bach a finnau ein tywys i fyny llwybr serth i alw amdani.

Unwaith fe afaelodd rhywun yn fy llaw a mynd â fi at ddrws caeedig. Agorwyd y drws. Nid aethom i mewn ond gwelais fy mam yn gorwedd â'i llygaid ynghau, ei hwyneb yn welw, a'i gwallt melyn yn rhydd ar y gobennydd. Ni welais hi byth wedyn. . . .

Sefais wrth ochr y twll yng nghanol criw o bobl mewn du. Rhoddwyd swp o bridd yn fy llaw; fe'i tfeilais i'r twll a'i glywed yn disgyn fel glaw y bocs.

Ymhen wythnos roeddwn i a phlant eraill o gwmpas y bwrdd yn cael parti, a rhywun wedi rhoi rhuban du wrth wddw fy ffrog wen. Yn fy llaw roedd bocs o siocledi mân mewn papur piws. Cymerais un ond bu raid i mi ei roi yn ôl a chynnig y bocs i'r plant eraill. Roeddwn yn bedair oed.

Yna yn lle sŵn y môr, sŵn afon, Afon Hwch, yn rhuthro dros y creigiau o'r Ceunant Mawr heibio i'r stryd yn Llanberis lle y daethom at deulu fy mam. Ac yn lle sŵn y trên anferth yn taranu, clywem hisian a ffrwtian trên bach Y Wyddfa yn rheolaidd drwy'r haf hwnnw a phob haf gydol fy mhentyndod. Dros dro yn unig y byddai ein arhosiad tra byddai fy nhad yn aildrefnu ei fywyd

ef a'n bywydau ninnau. Roedd chwaer fy mam a'i gŵr wedi cynnig cymryd Evelyn i'w magu, ond nid oedd fy nhad yn fodlon i ni gael ein gwahanu. Dyna sut y daethom i aros i 4 York Terrace, at frawd fy mam a'i ail wraig. Diflannodd fy nhad.

Daw brithddarluniau i'm cof o'n arhosiad yn yr India.

Rydym yn ein gwelyau mewn caban ar y trên. Rwyf i ar y silff uwchben ac yn amlwg yn ddi-gwsg. Clywaf sŵn hisian y stêm wrth i'r trên sefyll mewn gorsaf, a sŵn llawer o draed yn prysuro ar y platform. Gweld fy mam yn sefyll wrth y ffenestr yn edrych i'r tywyllwch: nid oes olwg o'm tad. Teimlo'r trên yn dechrau symud. Yn sydyn mae fy mam yn tynnu'r cortyn uwch ei phen. Mae'r trên yn stopio. Mae'r drws yn agor a daw 'Nhad i mewn. . .

Ar y llong rydym yn cysgu gyda theuluoedd eraill mewn ystafell fawr, ac yn bwyta mewn ystafell fawr arall. Ni allaf fwyta'r pwdin reis tew, oer, merfaidd. Ar y dec, mae'r haul yn tywynnu, a'r môr yn las a diddiwedd. Mae fy nhad yn magu fy mrawd bychan yn ei freichiau, ac mae'r gwynt yn cipio'i het fach wen a'i gollwng ar y tonnau islaw a'i chario i ffrwd nes iddi fynd o'r golwg i sŵn strancio a sgrechian fy mrawd. . . .

Eistedd yng nghysgod y byngalo yn ninas Lucknow yn malu rhew mewn teclyn bychan, a chael ei grensian a theimlo'r oerni braf yn fy ngheg. Mynd i ryw faes eang yng nghwmni gwraig ddu mewn dillad duon laes. Mae 'Nhad yn chwarae pêl-droed ar y cae. Mae'r *ayah* yn agor blwch bychan ac yn rhoi dail a chnau yn ei cheg ac yn eu cnoi nes bod ei gweflau a'i thafod yn goch, goch. . . .

Yng ngwaelod yr ardd y mae caban bychan lle triga'r gwas; gwisga flodyn coch yn ei glust a'i enw yw Sagar; byddwn yn mynd yno'n aml i'w weld. . . .

Un llun sydd gennyf ohonom yn yr India. Rydym yn eistedd ar y feranda, fy mam a ni'n tri mewn dillad gwynion, a 'Nhad mewn dillad milwr *khaki* ac esgidiau gwynion. Mae fy mam yn denau iawn. Ni fuom yn hir cyn dod yn ôl i Gymru. . .

Trigai Edward Jones, brawd fy mam, yn y rhes o dai a adeiladwyd yn arbennig ar gyfer stiwardiaid y chwarel. Roedd yna resi eraill o dai yn perthyn i Stad y Faenol yn y stryd a ymestynnai o westy Victoria hyd at y lliidiart a agorai i'r llwybr yng ngwaelod y Parc Mawr. Y llwybr hwn oedd y dramwyfa fwyaf poblogaidd a'r hawsaf i fyny'r Wyddfa. Ym mis Mai, mis claddu fy mam a mis fy mhen-blwydd i, mis o haf ac awyr las, y daeth newid ar ein byd. Cofiai pobl y stryd ni'n dod 'yn dri o bethau bach' mewn dillad gwynion a chawsom fynd law yn llaw am dro at y bont sy'n croesi Afon Hwch ac edrych i lawr ar y ffrwd yn byrlymu islaw â'r haul yn pefrio arno. Uwch ein pennau roedd y draphont a gariar trên â'i gerbydau'n llawn o bobl i fyny'r mynydd.

Mynyddoedd, chwarel a llyn mewn drycin a hindda fyddai tirlun ein plentynod o hynny 'mlaen.

CYRSIAU

Ar ôl y Pasg bydd yna gyrsiau chwaraeon ar gael yn Ysgol Brynrefail, a hynny mewn tri gwahanol faes: aerobics, gymnasteg a chriced. Cynhelir yr aerobics ar nos Lun rhwng 7 ac 8 p.m. (ar wahân i Lun y Pasg). Y mae'r cwrs aerobics yn gyfyngedig i rai dros 15 oed. Codir tâl o £1 y sesiwn, neu £10 am y cwrs cyfan.

Bu'r cyrsiau gymnasteg yn hynod o boblogaidd. Unwaith eto bydd dau grŵp gwahanol ar gael: yr ifanc iawn a'r rhai hynaf yn yr Ysgolion Cynradd. Ar nos Wener y bydd y gymnasteg, gyda'r grwpiau yn cyfarfod o 4 - 5 p.m., ac o 5 - 6 p.m. Fe fydd y cwrs gymnasteg yn ail-gychwyn ar nos Wener, Ebrill 23. Y mae'r tâl am cwrs gymnasteg yn rhesymol iawn — £6 am 12 gwers. Mae'n siŵr y bydd John Pike yn barod i dderbyn unrhyw newydd-ddyfodiaid.

Bydd y cwrs criced yn dechrau ar nos Fawrth, Ebrill 27, o 5.30 - 6.30 p.m. Bydd y cwrs yma yn parhau am 10 wythnos.

Os oes arnoch angen unrhyw wybodaeth bellach gellwch gysylltu â Phrifathro Ysgol Brynrefail.

OEDFA'R BORE

Yn Eglwys St. Mair, Dinorwig, o fis Ebrill ymlaen fe gynhelir yr oedfa am 11 o'r gloch y bore, yn hytrach nag am 3.45 y prynhawn fel y bu am nifer o flynyddoedd.

BLAS AR GOFFI

Mae yna goffi . . . ac y mae yna 'goffi'. Mae yna fathau adnabyddus ac y mae yna 'goffi'. Mae Ymgyrch Llefrith Babanod Gwynedd yn gwahodd pobl i ddod a blasu coffi da iawn yng Nghanolfan yr Esgobaeth ym Mangor (yr Hen Ficerdy gynt, Stryd Waterloo) ar fore Sadwrn, 17 Ebrill, o 10-12 o'r gloch.

Pwrpas y bore yw cyhoeddi methiant Cwmni Nestlé, wedi blynyddoedd o bwysedd, i gyd-ymffurfio ag argymhellion yr WHO (World Health Organisation) ynglŷn â marchnata llefrith babanod. Credir bod tua miliwn o fabanod yn marw bob blwyddyn mewn gwledydd y trydydd byd oherwydd cafodd eu mamau eu perswadio bod llefrith wedi'i sychu yn well na llefrith y fron.

Nid y dewis y mae'r Ymgyrch Llefrith a'r WHO yn ei feirniadu ond y ffordd o farchnata, sef samplau rhad ac am ddim drwy ysbytai.

I ddangos eu anghymeradwyaeth â hyn, mae llawer o bobl wedi penderfynu gwrthod prynu coffi NESCAFÉ (coffi poblogaidd cwmni Nestlé). Dyna pam fod Ymgyrch Llefrith Babanod Gwynedd yn rhoi 'Blas ar Goffi' i bobl. Nid oes rhaid i chwi brynu coffi Nestlé neu . . . yfed 'coffi'. Mae yna ddewis. Cewch brofi rhai eraill yn rhad ac am ddim ym Mangor ar 17eg o Ebrill.

(Os am ragor o wybodaeth cysyllter â'r Parchg G. Hewitt, Bangor 353360 neu Mrs Tracey Jones, Llanwnda 831104.)

YN EISIAU

ar gyfer

Cylch Meithrin Waunfawr

Tegannau mawr

(beics, tractor, coets babi dol ac yn y blaen)

i'w prynu am bris rhesymol.

Ffôn:

Waunfawr 650485

neu

Waunfawr 650426

AR WERTH

PEDWAR TEIAR ac

OLWYNION

COSWORTH SAPHIRE

Mewn cyflwr da

£300

neu'r cynnig agosaf

Ffôn: (0286) 8712591

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD

GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,

olew, tanwydd solat

a thredio peipiau

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon 673513



IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd

★ Teithiau Lleol a Thramor

★ Gwaith Contract

★ Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

DAVID CLOUGH

Ynysoedd

WAUNFAWR

Ffôn: 650282

Paentio ac Addurno

Gwaith Atgyweirio

'Estimates' am ddim

Geni • Bedyddio • Iddod • Priodas

✱ Pŵlgyr arbennig? ✱
✱ Amrhag unigryw? ✱
Beth am un o sampleri

PWYTHAU CAIN

✱ Cynllunir pob samplwr yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

✱ Hefyd gwniaidwaith o bob math gwned dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

✱ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau a farddoniadau

Plant Ysgol Bethel a Chwmni'r Frân Wen yn 'Edrych ar ein Cynefin'

ECO'R

Bu Cwmni'r Frân Wen ar daith unwaith yn rhagor o amgylch ysgolion cynradd Gwynedd gyda'r prosiect 'Yn dy Law' ar gyfer disgyblion 10-11 oed.

Bwriad y prosiect hwn oedd codi ymwybyddiaeth plant ysgolion cynradd Gwynedd ynglŷn â'u cynefin a'u bro. Roedd hwn yn brosiect arloesol yn hanes y Cwmni gan ei fod yn brosiect diwrnod ac yn gyfuniad o berfformiad theatrig a gweithdai symud, ysgrifennu a chelf. Roedd y prosiect yn cwmpasu nifer o wahanol agweddau o'r celfyddydau a sawl maes o fewn y Cwricwlwm.

Roedd y perfformiad theatrig yn llawn o storïau a delweddau lliwgar i sbarduno'r plant i feddwl am eu lle arbennig nhw o fewn eu cynefin neu yn eu byd dychmygol. Mae plant y dyddiau yma yn gorfod mynd i'r ysgol ond amser maith yn ôl roedd plant yn cael eu cadw adref o'r ysgol gan eu rhieni er mwyn iddynt weithio ar y tir. Dyna oedd hanes Meri Ifans, y caed ei hanes yn y prosiect 'Yn dy Law'. Hel cerrig fyddai hi o fore gwyn tan nos ond un diwrnod roedd wedi cael llond bol ac fe ddihangodd yn ôl i'r tŷ. Yno roedd ei nain, ac yn hytrach na'i dwrdio a'i hanfon yn ôl

i'r cae anfonodd hi Meri i fyny i'r mynydd i nôl llinyn gan Wil Waliau. Ar ei thaith drwy'r pentref tua'r mynydd daw Meri Ifans ar draws amrywiol gymeriadau sy'n ceisio esbonio ystyr enw'r pentref 'Pwllmaenllaw' — pawb a'i stori ddifyr ryfedd ynglŷn â'r pwll, y maen a'r llaw. Wrth fynd ar y daith yma mae Meri yn dysgu llawer am ei hamgylchfyd, a llawer hefyd amdani hi ei hun.

Yn dilyn y perfformiad cafwyd cyfres o weithdai a oedd yn ysgogiad pellach i'r disgyblion i ddatblygu'r syniadau.

Dyfeisiwyd 'Yn dy Law' gan aelodau'r Cwmni, sef Gillian Ogden (Cyfarwyddwraig), Manon Prysor, Owen Trefere, Rhiannon Williams (actorion). Adeiladwyd a chynlluniwyd y et gan Iwan Stanley Jones (Rheolwr Cynyrchiadau) ac fe baratowyd pecyn gwaith i gyd-fynd â'r prosiect gan Shirley Owen (Swyddog Cyswllt Ysgolion).

Roedd y prosiect ar daith hyd Ebrill 2, ac fe fyddai'r Cwmni erbyn hynny wedi perfformio unwaith yn nalgylch pob ysgol uwchradd ac wedi rhannu eu profiadau gyda disgyblion o 46 o wahanol ysgolion.

Roedd Cwmni'r Frân Wen wedi dod i'r ysgol dydd Mercher, Mawrth 24, i gyflwyno drama i ni. Roedd y ddrama yn sôn am hogan fach o'r enw Meri.

Doedd hi ddim yn cael mynd i'r ysgol oherwydd roedd hi yn gorfod gweithio trwy dydd i helpu ei mam gael pres.

Un diwrnod dywedodd nain Meri wrthi fynd i nôl llinyn. Ar ei ffordd i nôl y llinyn cafodd Meri llawer o stroïau am ei ardal ei hun. Pan gyrhaeddodd Meri adra aeth ei nain a hi am dro. Clymodd nain y llinyn rownd ei bol a dweud wrthi am fynd i mewn i'r ogof. Pan gyrhaeddodd Meri ddiwedd yr ogof roedd yna siâp dwylo yna ac roedd y dwylo yn union yr un maint â llaw Meri.

Ar ôl y ddrama aethom i'r dosbarth a gwnaethom fap o Bethel. Fe wnaethom ddefnyddio mwd, gwair, dail a gwllân a gwneud y map ar cardfwrdd 8tr wrth 4tr. Erbyn y diwedd roedd y map yn Edrych yn dda a roedd pawb wedi mwynhau ei hun.

(David Peters, Blwyddyn 6)



Daeth Cwmni'r Frân Wen i'r ysgol dydd Mercher. Cawsom ddrama gan y cwmni.

Roedd y ddrama am ferch fach o'r enw Meri.

Roedd hi wedi blino hel cerrig yn y cae a rhedodd i dŷ ei nain. Gyrrodd ei nain hi i nôl llinyn i dŷ ym mhen arall y mynydd.

Cafodd anturiaethau a storïau difyr ar y ffordd. Daeth Meri i adnabod ei hardal ei hun.

Gwnaethom fap o'n hardal ni gan ddefnyddio defnyddiau naturiol fel brigau, dail a phridd.

Mi ddes i i adnabod fy ardalfy hun yn well hefyd.

(Sioned Davies, Blwyddyn 6)



POBOL Y PASG

1. Pwy aeth i Jerwsalem ar gefn asyn?
2. Pwy werthodd lesu am arian?
3. Pwy gafodd ei ddal yng Ngardd Gethsemane?
4. Pwy ddywedodd dair gwaith nad oedd yn nabod lesu?
5. Pwy gafodd ei ollwng yn rhydd yn lle lesu?
6. Pwy helpodd lesu i gario'r groes?
7. Pwy gafodd eu croeshoelio efo'r lesu?
8. Pwy roddodd fedd i lesu?
9. Pwy aeth at y bedd ar y bore Sul?
10. Pwy ddaeth yn ôl yn fyw?

Plant Ysgol Llanrug ac Ysgol Dolbadarn a CADW yn cofio'r Streic

Roedd yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis yn fwrlwm o weithgaredd rhwng Mawrth 15 a Mawrth 26. Roedd CADW wedi trefnu cyflwyniad addysgol arbennig yno; cyflwyniad a oedd wedi ei seilio ar y safle a'i hanes. Rhoddwyd cyfle i'r gynulleidfa gymryd rhan a chwarae rôl er mwyn ail greu cyfnod y Streic Fawr yn y ganrif o'r blaen. Dangoswyd y meistri braf eu byd, a'r gweithwyr yn byw ac yn gweithio mewn amgylchiadau truenus. Roedd y plant yn cael eu hannog i gymryd rhan, a hynny yn atgyfnerthu'r broses o ddysgu drwy brofi. Bu'r actorion yn brysur iawn ac ymwelodd llawer o ysgolion â'r Amgueddfa i fwynhau'r cynhyrchiad. Roedd plant o Lanberis a Llanrug yn eu plith.

ROBAT JONES

Dyn mewn cap, chwarelwr oedd o, A'i enw oedd Robat, dyn da o'i go. Roedd yn ddi-waith am fod Dewi wedi dod i'r fro. Cynffonwr oedd Dewi, wedi dod o'r pwll glo. (Elin Dafydd)

DEWI WILLIAMS

Dewi Williams, cynffonwr oedd o, Daeth o o Wrecsam i weithio i'r fro. Roedd ei dad wedi marw yn y pwll glo. Doedd Dewi ddim eisiau ei ddilyn o.

ROBAT JONES

Rydym yn y teulu'n dilyn dad a taid Rydw i'n dod adref efo'n nillad yn llaid. Rydw i'n torri'r llechi bob awr o'r dydd Tra bydd y rheolwyr yn cael panad o hyd. (Sofia Morris a Meleri Griffith)

Ar Fawr y pymthegfed aeth Safon Tri Ar drip i Llanberis at y Gilfach Ddu, Roedd dynes yno a gwisg Gymreig Ac roedd hi yn ddynes andros o ffeind.

Walter Vivian, rheolwr y lle, Sy'n dod a chynffonwyr o bob lle. Mae Robat Jones yn weithiwr gwerth chweil, Ond 'di Mr Vivian ddim yn licio'r hen steil.

Mae'r rheolwr yn dweud bod Robat ar streic, Ond 'Wedi ein cloi allan' mae o yn ddweud. Aeth y ffrae rhwng y ddau ymlaen yn hir, Ond does na neb, hyd yn oed ni, yn gwybod y gwir. (Siân Green)

GILFACH DDU

Roedd Gilfach Ddu Yn swmlyd iawn, A phobl yn gweithio Trwy'r prynhawn.

Roedd Walter Vivian Yn ddyn pwysig iawn, Wedi dod a cynffonwyr Heb lawer o ddawn.

Roedd dynes yno Mewn gwisg Gymreig, Siôl a sgert, Sgidiau du am ei thraed.

Roedd Robat Jones Yn chwarelwr cryf, A Dewi Williams Yn gynffonwr du.

Aeth yn ffrae Rhwng y ddau, Dywedodd Walter Vivian, 'Mae'r chwarel 'di cau'.

Roedd llawer o beiriannau Yn y Gilfach Ddu. Roeddynt wedi cael eu cau Yn y siediau du.

(Gwenan Mared Evans)

Plant Dolbadarn yn sôn am y ddrama . . .

Dydd Mawrth, 23 o Fawrth aethom i Amgueddfa Lechi Gilfach Ddu i weld drama 'Bara Llwyd'. Roedd y ddrama yn werth ei gweld. Buasem yn hoffi gweld y ddrama eto. (Rachel a Lee)

Cawsom ein croesawu gan ddynas o'r enw Dora. Ei henw yn y ddrama oedd Helen Parry. Roedd yna dri actor arall yn y ddrama, sef Paul oedd yn actio rhan Mr Vivian, Gwyn oedd yn actio rhan Robert Jones, a Melany oedd yn actio rhan Dewi Williams. (Alwyn)


Yn gyntaf roeddem yn gorfod codi ein breichiau ac ysgwyd ein bysedd a gweiddi '1886', a dyma Mr Vivian yn dod o rywle gan weiddi, 'Are you ready for your aptitude test?' yn wyneb pawb. Hefyd roedd yn poeni a dychryn rhai ohonom ni, ac roedd Mr Vivian yn mwyrdd, ac yn dweud ein bod wedi dod i'r chwarel i weithio. (Ffion)

Wedyn gwelsom ddyn o'r enw Robert John Jones. Chwarelwr oedd o. Yr oedd o a 2,700 o chwarelwyr eraill wedi eu cloi allan o'i weithdy. Wel, dyna beth oedd Robert Jones a'r chwarelwyr yn ddweud, ond yr oedd Mr Vivian yn dweud eu bod ar streic. Dyna beth roeddwn i wedi dod i ddarganfod. Pwy oedd yn dweud y gwir? Mr Vivian neu'r chwarelwyr? (Chris Carr)

Roedd pob man fel ag yr oedd hi yn y flwyddyn 1860. Ar ôl bod o gwmpas yr Amgueddfa aethom i le cinio y chwarelwyr (y caban). Un dyn oedd yno, ei enw oedd Dewi Williams. Roedd o yn dod o Wrecsam. Roedd yn cael ei alw yn gynffonwr. (Jemma)

Y peth olaf a wnaethom ni oedd mynd i'r cwrt am fod Robert Jones yn cwyno ei fod wedi cael ei gloi allan. Roedd Mr Vivian yn dweud eu bod ar streic. Roedd pawb yn gweiddi ar draws ei gilydd bob munud. A dweud y gwir roedd yn dipyn o hwyl. Enillodd criw Robert Jones y bleidlais yn y diwedd. (Gareth)

Cyn hir doedd neb yn gallu cario ymlaen oherwydd bod Mr Vivian yn mwyrdd ac yn cadw reiat. Pan ofynnodd y chwarelwyr i Mr Vivian os oedd yn cadw gwn fe aeth o'n flin. Ei esgus oedd fod y chwarelwyr wedi ymosod arno ddwy waith, a'i fod ef am ei amddiffyn ei hun. Ar ôl gorffen yn y cwrt aethom yn ôl i 1993 trwy ysgwyd ein bysedd a gweiddi '1993'. Diolch yn fawr am gyflwyniad 'Bara Llwyd'. (Jemma)



Llun gan Guto Humphries

A dyma blant Llanrug yn adrodd yr hanes . . .

Fe aeth blwyddyn 5 a blwyddyn 6 i Chwarel Gilfach Ddu. Roeddem ni yn meddwl mai arddangosfa oeddem am gael ei weld, ond mi gawsom ni rywbeth annisgwyl. Roedd dynes fach mewn dillad hen ffasiwn, ac aeth hi a ni yn ôl i'r flwyddyn 1886. Roedd dau ddyn yn ffræo. Enw un oedd Mr Vivian, rheolwr y chwarel ers 6 mlynedd. Y llall oedd Robat Jones. Roedd o wedi gweithio yn y chwarel ers pan oedd o yn 12 oed. (Iolo Glyn Roberts)

I ddechrau daeth dyn cran a dechrau ffræo efo Robat Jones. Roedd Robat Jones yn dweud bod o wedi cael ei gau o'r chwarel ac roedd Mr Vivian yn dweud ei fod o ar streic. Efo'r holl ffræo yma, roedd Elen Parry ddim ond eisiau rhoi clap ac roedden nhw yn ddistaw a llonydd. (Andrea)

Dyn hefo dillad crand a het ddu a spectol oedd Mr Vivian. Roedd yn edrych yn swel. Doedd Mr Vivian ddim yn hoff iawn o Robat Jones. Roedd Mr Vivian yn hoff iawn o Dewi. Dywedodd Robat Jones mai cynffonwr oedd hwnnw. (Nicola Jones)

Roedd Dewi Williams wedi dod o Wrecsam i gymryd lle y bobol oedd wedi eu cloi allan. Roedd yn cael ei alw yn gynffonwr. (Hefin Roberts)

Roedd y chwarelwyr yn gweithio mewn teulu. Doedd Dewi ddim. Roedd y chwarelwyr yn hel Undeb yn erbyn y cynffonwyr a'r rheolwyr. Ac roedd yr Undeb yn rhoi pres. Ac yn y diwedd roedd y pres wedi gorffen. Roedden nhw yn gorfod mynd yn ôl i weithio. (Mathew)

Dyma ni yn cael ein rhannu i grwpiau ac ymuno yn y ffræ. Ac roedd o yn hwyl dysgu am yr hen amser a gweld cymeriadau newydd. (Claire)

Wedyn pan oedd hi'n amser mynd, cerddom at y bws gan godi llaw arnynt, ac aethom yn ôl i'r ysgol. (Dewi Wyn Jones)

'Ar daith hir Duw'

Iddis Thomas, Trefor, yn dwyn i gof un a dreuliodd oes gyfan yn gweini ymhell i ffwrdd o'i chartref, sef Llidiart y Clo, Dinorwig.

Ar 2 Ionawr 1993 yn dawel yng Nghartref Nyrsio Llwynfor, Morfa Nefyn, bu farw Miss Ellen Louisa Thomas yn 99 oed; fis Mehefin eleni buasai yn 100 oed. Adwaenai pawb hi fel un o chwiorydd y diweddar Barchedig Herbert Thomas, Llannor, a Deon Gwlad Llŷn yn ei gyfnod.

Roedd ei hangladd yn Eglwys a mynwent Llanddeiniolen ar ddydd Gwener, 8 Ionawr, gyda Ficer y Plwyf, Y Parchedig Gordon Owen, y Canon William Jones, Llanystymdwy, a minnau yn gwasanaethu. Yn bresennol yr oedd perthnasau, ffrindiau, staff Llwynfor, a swyddog a chynghorwyr o Gyngor Dosbarth Dwyfor. Yn wahanol i angladd ei brawd, Herbert, pan oedd mintai fawr wedi dod ynghyd, angladd tawel oedd hwn, ond un urddasol serch hynny. Un mlynedd ar ddeg yn ôl y daeth Ellen Louisa Thomas i gartref nyrsio Llwynfor o'r Rheithordy, Llannor, a chafodd gan Mrs Falkener a'r staff ofal a chariad arbennig.

Dechreuodd oes hir Louisa Thomas ym 1893, a hynny yn Llidiart y Clo, Dinorwig. Roedd perchennog presennol Llidiart y Clo, Miss Elizabeth Thomas, efo mi yn yr angladd. Wrth fynd i nôl Miss Thomas y pnawn hwn o Ionawr i Ben Draw Dinorwig, ac wrth edrych ar Llidiart y Clo, meddyliais sut fywyd oedd yn y gymdogaeth annwyl hon pan anwyd Ellen Louisa Thomas gan mlynedd yn ôl i eleni. Saif Llidiart y Clo yng nghysgod Chwarel Dinorwig, ac nid nepell o'r tŷ mae lein fach y trên a fyddai'n teithio'n fynych o'r Allt Ddu i'r chwarel. Wrth ymyl y lein mae lôn y gwaith y cerddedd cannoedd ar gannoedd o chwarelwyr ar hyd-ddi.

Nid nepell o Llidiart y Clo y mae'r cartref lle'm ganed i, ac felly roedd fy nhaid a'm nain a nhad yn gyfarwydd â theulu Llidiart y Clo. Effeithiodd y Chwarel yn drwm ar fywyd y fro a bu'r effaith yn drom a phersonol i deulu Louisa Thomas gan i ddamwain ddod i ran ei thad, Griffith Thomas, pan chwythodd powdwr y chwarel yn ei wyneb a'i ddallu.

Yn un ar bymtheg oed ffarweliodd Louisa Thomas â Llidiart y Clo ac ar wahân i gyfnod gwyliau yn y cyfnod cynnar ni ddaeth yn ôl i Ben Draw i fyw, gan i'w mam symud at y mab i Reithordy Llannor.

TAI BYDDIGIONS

Aeth Louisa i ddinas fawr Llundain, ac am hanner can mlynedd a mwy bu'n gweini yno gyda theuluoedd bonheddig, gan weithio ei ffordd i fod yn un a ofalai am staff y teuluoedd hynny. Mae enwi'r teuluoedd y bu'n gweini iddynt yn gatalog o bwy oedd pwy yn Llundain yn y cyfnod hwnnw. Bu gyda Syr Cornop Lady Guthrie am ugain mlynedd; yna at Iarll ac Iarlles Hedderington (roedd y teulu hwn yn ciniawa gyda rhai o aelodau'r teulu brenhinol yn aml); ac yna at deulu de Rothchild. Byddai cael hanes ei hymwneud â theuluoedd fel hyn wedi bod yn ddiddorol, a dweud y lleiaf.

Roedd Louisa Thomas yn meddu



ar lais canu da. Canai'n rheolaidd yng nghôr Eglwys Paddington, a chanodd gyda'r côr hwn droeon yn Eglwys enwog Sant Paul pan fyddai corau holl Eglwys Llundain yn dod ynghyd. Pan ddeuai o dro i dro adref i Ddinorwig roedd pawb yn dotio at ei dillad — dillad safonol o'u cymharu â dillad teuluoedd y chwarelwyr y pryd hynny.

Ddeufis cyn i'm tad farw, dair blynedd yn ôl bellach, euthum ag ef, ynghyd â Miss Elizabeth Thomas, i weld Louisa Thomas ym Morfa Nefyn. Er ei bod, bryd hynny, mewn gwth o oedran roedd ei chof am ei bro enedigol yn rhyfeddol a chefais brynhawn i'w gofio wrth i 'nhad a hithau fynd â ni ar daith drwy gartrefi Dinorwig a hel atgofion am bwy oedd yn byw ynddynt saith deg o flynyddoedd a mwy yn ôl. Seiat ryfeddol oedd honno, wrth i wraig oedd bron yn 97 oed gofio enwau rhieni a phlant yr oes a fu. Ysgogodd hyn fi i gasglu'r wybodaeth gan fy nhad, ac fe'i cefais.

Yn Llanddeiniolen y prynhawn hwnnw o Ionawr daeth criw bach ohonom i dalu'r gymwynas olaf i Ellen Louisa Thomas o Llidiart y Clo, Dinorwig, a adawodd fro'r garreg las i weini byddigions yn Llundain cyn dychwelyd ar ddiwedd oes i Ben Llŷn, ac i ofal arbennig Cartref Llwynfor.

Pan ddeuthum ag Elizabeth Thomas yn ôl i Llidiart y Clo dywedais wrthi fy mod am gerdded y lôn i ben y chwarel, cerdded wedyn i lawr drwy'r chwarel a dod yn ôl drwy'r Allt Ddu. 'Gymerith hynny dipyn o amser ichdi,' meddai Miss Thomas, ac ychwanegodd: 'Weli di ddim byd, wsti, dim ond yr olygfa.'

Hanner can munud a gymerodd y siwrnai imi, ac o feddwl am gan mlynedd oes Louisa Thomas nid oedd yn ddim. Wrth imi gerdded drwy dawelwch Chwarel Dinorwig, a dim ond y gwynt main yn cadw sŵn, gofynnais i mi fy hun: 'Sut le oedd yn y chwarel ym 1900 pan oedd Louisa yn saith oed?' Ni chawn ateb rhagor, oherwydd gyda'i hymadawiad hi a'i chenchedlaeth peidiodd y lleisiau.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod ar 24 Chwefror pryd y treulwyd prynhawn difyr iawn yng nghwmni'r Cwnstabl Alan J. Bevan, Swyddog Cysylltiadau Cymunedol. Cyfeiriodd at y gwahanol ffyrdd sydd yna i atal troseddau ac fe agorwyd ein llygaid i'r modd o wneud hynny mewn amrywiol ffyrdd. Diolch iddo am roi o'i amser prin i ni fel Clwb. Gwesteion y te oedd Mrs Jennie Williams, Mrs Jennie E. Williams a Mrs Cashman. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Jennie Williams a'r enillydd oedd Mrs Jennie E. Williams. Diolchwyd i bawb gan Mrs Megan P. Morris.

Cafwyd cyfarfod arall o'r Clwb ar 9 Mawrth dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones a thrafodwyd gwahanol bynciau. Llongyfarchwyd Mrs Jennie Cashman ar fod yn nain unwaith eto; hefyd Mrs Janet Bingham am i'w hwyres gael ei dewis yn Frenhines Carnifal '93. Rhoddwyd y te gan Mrs Megan P. Morris, Mrs Eirlys Ll. Jones a Mrs Alwen Jones. Enillwyd y raffl, rhoddwyd gan Mrs Megan P. Morris,

gan Mrs J. Eirlys Williams.

Cyngor Eglwys Deiniolen: Cynhelir gwasanaeth Cymundeb yn Ebeneser ar nos Iau Cablyd, Ebrill 8fed am 7 o'r gloch.

Diolch: Dymuna teulu y ddiweddar Eileen Thomas, 16 Rhydfadog (Bwlch Gwynt gynt) ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt. Diolch i ddoctoriaid a nyrsus Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, i ddoctoriaid a nyrsus y Gymuned, nyrsus Hospis yn y Cartref a'r Marie Curie. Diolch hefyd i'r Parchedigion Olaf Davies, Ifor Ll. Williams ac S. Wayne Roberts am eu cymorth. Diolch hefyd i chwiorydd Sardis am ddarparu lluniaeth ac i Mr Myrddyn Pritchard am y trefniadau angladdol.

Llongyfarchiadau: Llongyferchir Tracy Hughes, Llys Myfyr, Stryd Deiniol, ar gwblhau ei chwrs gyda'r Llu Awyr, a dymunwn bob lwc iddi i'r dyfodol.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Phillip Jones, Tŷ Capel Sardis, ar enedigaeth merch, Megan Elisabeth, ar Fawrth 1af. Chwaer fach i Jennifer, Helen, Gwilym a Gryffydd.

Llongyfarchiadau: I Mr a Mrs Ifan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, ar fod yn daid a nain ar Fawrth 11eg. Ganed Anest Bryn, merch fach i Marina a John Eifion, chwaer fach i Lois Eifion. **Gwellhad Buan:** Dyna ddymunwn i Mrs J. Jones, Buarth Newydd, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Yr un yw ein dymuniadau i bawb sydd ddim yn mwynhau iechyd rhy dda ar hyn o bryd.

Cyfarfod Gwedd Byd-eang y Chwiorydd: Ar 5 Mawrth cynhaliwyd cyfarfod bendithiol iawn yn Y Ganolfan. Yn cymryd rhan roedd Mrs Katie Ll. Hughes, Mrs M. Fleming, Mrs B. Peris Roberts, Mrs Megan Morris, Miss Nellie Wyn Jones, Miss M. J. Jones, Mrs Elisabeth Jones, Miss Morfudd Jones, Mrs Irenie Morris, Miss Florrie Davies. Y cyfeilydd oedd Mrs Dilys Williams. Cafwyd casgliad o £12.30 tuag at yr achos.

Dydd Gwener y Groglith (Ebrill 9fed): Yn ôl yr arfer blyneddol fe drefnir gorymdaith gyda'r Groes drwy'r

pentref gan gychwyn o Eglwys St. Mair am 2 o'r gloch ac yn dychwelyd erbyn 2.45, pryd y cynhelir gwasanaeth o flaen yr Eglwys. Yn dilyn y gwasanaeth fe ddarperir lluniaeth ysgafn. Mae croeso i bawb ymuno â'r orymdaith.

Eglwys St. Mair: O fis Ebrill fe gynhelir gwasanaethau'r Sul am 11.00 y bore (yn hytrach nag am 3.45 fel y bu'r drefn ers blyneddodde). Gobeithir y bydd yr amser newydd yn galluogi mwy o bobl i ddod i addoli ar y Sul. Beth amdani? Os nad ydych wedi bod yn addoli ers blyneddodde dyma i chwi gyfle i ail-gychwyn.

Wedi Sul y Pasg bydd pob aelod yn derbyn amlen casgliad Cymorth Cristnogol, ac am y tro cyntaf erioed, fe wneir y casgliad ar y cyd ag aelodau Capel Sardis. Disgwylir i bawb ddychwelyd yr amlenni ar ddydd Sul, 16 Mai, pan gynhelir gwasanaeth undebol yng Nghapel Sardis am 2 o'r gloch.

Bydd blodau'r allor am fis Ebrill yng ngofal Mrs G. A. Williams, Biwmares, a'r gwaith glanhau yng ngofal Mrs Derek Williams, Bron Eilian. Ein diolch iddynt hwythau.

Dymunwn Basg bendithiol i bawb.

PEINTWYR PADARN (Trefor Jones ac Alan Bee)

LLANBERIS

am waith da ...

★ tu fewn a thu allan

★ crefftwyr gofalus

★ prisiau rhesymol

★ amcanbrisiau am ddim

Ffoniwch 870397



Anadlu'n rhydd

Yn ystod gwasaneth Nadolig Ysgol Gwaun Gynfi a gynhaliwyd yng Nghapel Ebeneser, ar Ragfyr 13 y llynedd, gwnaed casgliad ar gyfer achos da lleol. Penderfynwyd cyfrannu'r arian tuag at Gronfa Cyfarpar Meddygfa Deiniolen. Yn sgil hynny prynwyd 'Nebuliser' yn enw'r ysgol i'w ddefnyddio gan y plant lleol sy'n dioddef o'r Asthma.

Bu Nrys Betty Parry draw yn yr ysgol yn dangos i'r plant sut i ddefnyddio'r cyfarpar arbennig yma. Diolch i bawb a fu yn y gwasanaeth Nadolig ac a gefnogodd y fenter yma.



CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

ARDDANGOSFEYDD YN AMGUEDDFA'R GOGLEDD



Sinematograffi Cynnar Chwefror 1 — Mai 16

Mae'r arddangosfa hon yn cyflwyno detholiad o destunau gan gynnwys datblygiad yr offer a'r technegau o arddangosfa lluniau symudol. Gwelir hefyd dehongliad o arwyddocad cymdeithasol a masnachol y datblygiadau technegol sydd i'w gweld yma.

Cymru a'i Rheilffyrdd Mawrth 5 — Ebrill 25

Cyflwynir golygfeydd o reilffyrdd Cymru mewn oes a fu mewn dwy arddangosfa a drefnwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn y naill, 'Peirianwyr a Phenseiri Rheilffyrdd Cymru', olrhainir twf a datblygiad rheilffyrdd drwy ddyluniadau, mapiau, cynlluniau a ffotograffau yn ogystal ag argraffiadau a chofnodion teithwyr ac arloeswyr cynnar. Yn y llall, 'Rheilffyrdd Cymru', cyflwynir peintiadau gan Gwyn Briwnant-Jones, artist sy'n cyflwyno ymchwil drylwyr a dychymyg ysbrydoledig wrth ail greu golygfeydd o oes pan chwaraeai'r rheilffyrdd ran fwy canolog ym mywyd Cymru.

Mwyngloddiau a Chwareli Llechi Eryri

Ebrill 28 — Mai 10

Arddangosfa fer yw hon sy'n cynnwys tua hanner cant o luniau du a gwyn a baratowyd gan Mark Brinkworth. Mae'r arddangosfa yn darlunio'r diwydiant llechi a fu'n rhan mor allweddol o ffurfio a newid tirwedd Eryri. Ar un adeg cyflogwyd 18,000 o bobl gan y diwydiant llechi, ond erbyn heddiw dim ond ychydig gannoedd a gyflogir, i wneud llechwaith adduniadol. Nid yw'r lluniau mewn fframiau.

Yr Wyddfa

Mai 1 — Gorffennaf 4

Mae'r arddangosfa hon wedi ei pharatoi gan Rob Piercy, brodor o Borthmadog, ac mae'n cynnwys tua pedwar ugain o ddarluniau dyfrliw — gan gynnwys yn fwyaf arbennig olygfeydd o'r Wyddfa fel ei brif destun. Mae Rob Piercy yn paentio yn y dull traddodiadol gyda chefn gwlad Eryri yn ysbrydoliaeth cyson iddo. Mae'n baentiwr dyfrliw naturiol a llwyddiannus ac mae ei gyfraniad i arlunio yng ngogledd Cymru yn sylweddol iawn.

Arddangosfa o Grefft y Gof Mai 15 — Gorffennaf 6

Sefydlodd Ann Evans, brodor o ogledd Cymru, weithdy ym Mhlas Glynllifon. Bydd yr arddangosfa yn cynnwys crefftwaith tri dimensiwn, gan ddefnyddio gwahanol ddeunydd crai i ffurfio'r eitemau gorffenedig. Gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith allan o fetel, ac mae'r eitemau yn amrywio o gnocwyr, dolenni a byllynod drws i grogluniau a gwaith cerameg. Fe'u gwerthir yn yr arddangosfa, ac maent o fewn cyrraedd poced pawb.

Ynys Enlli

Mai 22 — Rhagfyr 31

'Gorwedd llwch holl saint yr oesoedd
A'i merthron yn dy gol.'

Mae'r arddangosfa yn edrych ar hanes yr ynys, ac yn arbennig felly y bywyd gwyllt a gofnodwyd mewn cyhoeddiad gan Peter Hope Jones. Cyflwynir yr arddangosfa drwy ddefnyddio 36 panel, print scanachrome a fideo. Arddangosfa deithiol yw hon, ac ar ôl gadael Amgueddfa'r Gogledd fe aiff i Amgueddfa Werin Cymru, cyn teithio Cymru drwy drefniant ar y cyd gyda Chyngor Amgueddfeydd Cymru.

Tecstilïau

Gorffennaf 10 — Medi 19

Mae Cefyn Burgess yn un o gynllunwyr-gwneuthurwr mwyaf amlwg gwledydd Prydain ym maes Tecstilïau erbyn hyn. Brodor o ogledd Cymru yw Cefyn, ac fe fu'n astudio yng Ngholeg Politechnig Manceinion a'r Coleg Celf Brenhinol. Ers hynny cafodd brofiad sylweddol o'r diwydiant tecstilïau ym Macclesfield cyn dychwelyd i ogledd Cymru i sefydlu cwmni tecstilïau. Mae'r arddangosfa yn cynnwys amrywiaeth o gwltau a blancedi yn ogystal â chrogluniau a dillad ffasiynol.

Kevin Spice — Lluniau ar Leoliad
Medi 23 — Hydref 31

Trigain print lliw diweddar gan y ffotograffydd lleol, Kevin Spice. Cynhyrchodd gyfres o brintiau o lynnoedd Eryri, ac mae'r gyfres yn cynnwys rhan o'i brosiect diweddaraf a baratowyd yn arbennig ar gyfer yr arddangosfa hon. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar yr hen flychau post sydd yn dal i gael eu defnyddio heddiw ac sydd yn frith o gwmpas yr ardal. Hon fydd ei arddangosfa gyhoeddus gyntaf o bwys.

Merlod y Mwyngloddiau Hydref 1993 — Ionawr 1994

Gwaith llaw, dogfennau a lluniau yn olrhain hanes merlod y mwyn-gloddiau a'r math o waith a wnaed ganddynt. Edrychir hefyd ar grefftau cysylltiedig, megis gwaith y ffariar a'r heliwr. Canolbwynt yr arddangosfa yw tablo o fodel o ferlyn gyda harnais law, a.y.b., a thram glo yn dod allan o lôn danffordd ffug.

Arddangosfa Nadolig Rhagfyr 10 — 31

Mae'r arddangosfa hon yn seiliedig ar waith disgyblion chweched dosbarth Ysgol Brynrefail. Mae eu prosiect diweddar yn darlunio bywyd a gwaith eu cymuned leol, gydag eitemau yn amrywio o grefftwaith i dechnoleg. Bydd lluniau a phaentiadau Nadoligaidd eu naws hefyd yn rhan o'r arddangosfa.

Llechi: Rhys Mwyn / Jamie Reed Mawrth 1994

Arddangosfa ar y cyd o waith dylunydd graffeg amlwg a cherddoriaeth grŵp roc Cymraeg adnabyddus. Bwriad penodol yr arddangosfa hon yw denu pobl ifanc i'r Amgueddfa, gan adeiladu ar lwyddiant yr arddangosfa 'Martin Roberts/Steve Eaves a'i Driawd' a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Amgueddfa'r Gogledd.

Gwalia

Chwefror 1 — Mawrth 29, 1994

Arddangosfa ffotograffig (50 llun lliw, wedi eu fframio) yn darlunio'r tirwedd a'r bywyd gwyllt amrywiol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar bobl yn mwynhau yn ogystal a gwarchod ein tirwedd. Bwriad y prosiect yw codi dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth pobl o dirwedd Cymru, a'r angen i bob un ohonom edrych ar ei ôl.

Celfi Plentyndod

Chwefror 1 — Mai 15, 1994

Paratowyd yr arddangosfa hon gan Gyngor yr Amgueddfeydd, ac mae'n cynnwys detholiad o eitemau a wnaed ar gyfer plant ers y ddeunawfed ganrif. Mae'n cynnwys cadeiriau, cotiau pren, soffas, tai dol, fframiau cerdded a phethau cyffelyb. Mae hefyd yn cynnwys set gyfan o ddodrefn a wnaed i blant y teulu brenhinol gan gwmni o Gaerdydd yn y 1930au.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG

Ffôn: 677482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr ffenestri
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr
650552

CARTREF HENOED



Caernarfon
(0286) 674652

Beth sy' mewn enw? gan Y Gwalch

Erbyn i mi fynd i lawr i'r Ardd Ddŵr y bore braf hydrefol hwnnw roedd yr arglwyddes yno yn barod, yn sylu i'r pellter draw.

'Bore da John,' meddai hi, 'Beth wyt ti'n feddwl o'r olygfa yna?'

Roeddwn yn sefyll ar rediad tir uwchben y ffrwd, ac oddi tanom roedd Downs Sussex yn tonnenu a'r coed eisoes yn newid eu lliwiau.

'Mae hi'n brydferth iawn adre hefyd y tymor yma,' meddai hi wedyn cyn i mi ddweud gair.

Brodor o Quebec oedd yr arglwyddes: gwlad Maria Chapdelaine ac ardal Lac de L'eau Clair. Roedd hi'n hannu yn wreiddiol o gyff hen Gorsairs San Malo, a hawdd credu hynny pan fyddai yn cael ei chroesi. Roedd hi'n dywyll fel quadron ac yn guchig ei hael, ac yr oedd hynny yn gwneud iddi edrych yn hynach na deg ar hugain. Roedd iddi waed mympwyol: roddu neu'n casáu ac yn dueddol o ochri'r lleiafrifoedd oedd a'u cyflwr yn gyffelyb i eiddo ei phobl hi yn y Quebec.

'Wel,' meddai hi wedyn, 'Oes gen ti awgrymiadau ynglŷn â'r rhain?' gan gyfeirio at bentwr o tua deugant o lwyni rhosod oedd newydd gyrraedd ers rhyw awr.

'Mae gen i restr,' meddwn i, a threuliasol awr arall yn trafod ar ba ddulliau i'w plannu yn ôl apêl eu lliwiau. Pan oeddwn ar ganol dadl gyfeillgar ynglŷn â'r border hanner lleuad, dywedodd hi'n sydyn,

'Mae'n siŵr y medri di wneud hebddaf fi rŵan?' a ffrwd â hi a'm gadael.

'Mi geisiaf,' meddwn innau gan gofio beth ddywedodd yr hen arddwr hwnnw a dreuliodd oes mewn gwasanaeth preifat wrth yf unwaith. Mae'n llawn mor bwysig deall y feistres a deall y grefft. Ar ôl bod yn arddwr a gyrrwr i'r arglwyddes am ddwy flynedd gwyddwn erbyn hynny mai gwir a ddywedodd.

Gyda'r honnwr roeddwn yn y fflat bach uwchben y garejis yn ymgodymu â'r nofel honno a oedd yn mynd i ennill i mi y Nobel, pan gannodd y ffôn. Yr arglwyddes oedd yno o'r tŷ mawr, ac amheuthun hynny; ychydig a fyddai yn darfu ar neb ar ôl oriau gwaith.

'Rhag ofn na welaf di y bore cynta,' meddai heb ragymadrodd, 'Ddoi di â'r Camargue at y ffrynt erbyn chwarter i ddau yn y pnaun. Rwy' wedi penderfynu mynd i Montreal. Bydd yn rhaid i mi fod yn Gatwick erbyn tri. Mi fydd gen i un peth neu ddau i fy nghanlyn. A gyda llaw fydd ddim rhaid i ti wisgo dy gap.'

'O'r gorau,' meddwn i. 'Nos da,' yn Gymraeg.

Roeddwn wedi lled ddisgwyl yr alwad ar ôl ei chlywed yn sôn am Quebec yn y bore, ac ar wahân, roedd ganddi ŵr yn Montreal yn rhedeg ffatrioedd botymau, a chontract ganddo, os gwir y gair, i arlwydd byddin Canada a'r Mounties.

Oddi tanaf yn y garejis roeddau Rolls Royce; y Camargue newydd a'r hen Phantom '36; cyn-eiddo i'r Arglwydd Caernarfon, ysbeiliwr bedd Tutenkamon, yr hwn meddid a oedd wedi gosod mellthith ar y gŵr hwnnw a'i eiddo. Hyd hynny doedd yna ddim tystiolaeth fod honno wedi syrthio ar y Phantom.

Cerbyn siwrneiau lleol cymdeithasol oedd y Phantom, byth ar ôl y profiad anfelus hwnnw a gawsom unwaith gydag ef yn Gatwick. Cyn gynted ag y cyraeddassom fe'n amgylchynwyd ni gan dwr o bobl chwilfrydig a charedigion hen geir. Cymaint oedd eu pwysau fel y bu'n rhaid i ni gael cymorth heddwass o'r maes awyr i gael yr arglwyddes allan o'r cerbyn ac i'r adeilad. Bu'n rhaid i minnau gael ei gymorth i gludo ei beichiau o'r bwt ac i ddianc oddi yno. Roedd hi, y diwrnod hwnnw, yn eistedd yn y pen blaen gyda mi a gwyddwn mai dyna oedd ystyr y gorchymyn: 'Dim cap'.

Am chwarter i ddau union roedd y Rolls a minnau wrth ddrws y ffrynt a'r peiriant wedi ei dwymo. Daeth hi yn fuan mewn costiwm las a het gantel lydan. Roedd hi'n 'svelt' a bu rhaid i mi gael dweud hynny wrthi. Fel arfer roedd 'yr un peth neu ddau' wedi mynd yn bump a chwech.

Ar y ffordd siaradau i mi ardd a'r gorchwyllion a ddylid eu gwneud. 'Efallai yr arhosaf am fis,' meddai. Dywedodd ei bod yn falch fod y rhosod i mewn cyn y rhew. Gwelsom rai ffawd-heglwyr. 'Haerllug' oedd ei sylw i amdanynt. Gwyddwn mai'r pechod mwyaf ar fy ffordd yn ôl fuasai i mi godi rhywun yn y Rolls. A pheth arall a gasai oedd i rywun aros yn Gatwick a mynd gyda hi at y giât. 'Dyna fi,' fyddai hi'n ddweud. 'Cer di, Vaya con Dios'.

Byddwn bob amser wrth ddychwelyd yn gyrru yn y llwybr araf gan gymryd arnaf mai fi oedd perchennog y car, gan yfed yr hollolygon edmygol a droid i'm cyfeiriad.

Doeddwn i ddim wedi dod ymhell y diwrnod hwnnw nes i mi sylwi bod yna Triumph bychan yn cael ei yrru gan ferch yn fy nilyn. Roedd hi wedi ceisio mynd allan i'r llwybr canol unwaith neu ddwy, ac o'r diwedd llwyddodd. Wrth i'r car fynd heibio i mi sylwais fod yna ferch arall ynddo ar ei lled orwedd y tu ôl. Wedi iddynt fynd heibio, aethant yn eu holau i'r llwybr araf o'm blaen, ond nid cynt nag yr oeddent wedi gwneud, fe ddechreuodd y car siglo a'r peth nesaf yr oedd wedi mynd oddi ar y ffordd ac yn rhiglo'r glaswellt. Daeth i orffwys ymhen llathenni yn wynebu y ffordd y daeth.

Ar ôl mynd heibio iddo cefais gyfle i aros mewn cilfach ac yr oeddwn ar fedr rhedeg yn ôl pan welais y ddwy ferch yn dod tuag ataf. Roedd un fel pe yn hanner cynnal y llall, ac yr oedd hi'n gweiddi tros y wlad.

'Mae hi yn mynd i gael babi. Roeddwn ni ar y ffordd i'r ysbyty. Ewch chi â ni?'

O dan amgylchiadau felly, os nad oeddwn awydd actio bydwaig mewn drama, doedd dim dewis ond gwrthio'r ddwy i sedd ôl y Camargue a'i goleuo hi i lawr y llwybr cyflym am yr ysbyty agosaf, a'r diwrnod hwnnw dangosodd y Rolls sut y gallai symud.

Ymhen dim, ond yr a ymddangosai fel awr, roeddwn yn chwyrru heibio i loj y portier yn Ysbyty Cuckfield. Buasai'r arglwyddes wedi gwaredu. Rhuthrais wedyn i'r adeilad a chefais afael ar gadair olwyn. Wedi cael y ddarparfam i honno, aethom â hi i'r dderbynfa, ac yno y gadewais y ddwy, heb air o ddiolch na hyd yn oed ddirnad pwy oeddynt heblaw mai Suzi a Cheryl o Crawley.

Erbyn i mi fynd yn ôl ar y car roedd y porter yn sefyll yno yn awyddus i wybod beth oedd fy neges. Wedi i mi egluro fe gododd ei aeliau a mynnodd gael fy enw a'm cyfeiriad er mwyn ei gofnodion meddai.

Arhosodd yr arglwyddes yn Quebec am fwy na mis, a chollais hi. Un bore, a'r Nadolig ddim ymhell, daeth Mrs Meads yr house-keeper ataf i ddweud ei bod wedi cael neges ffôn. Yr oeddwn i fynd i Gatwick y prynhawn trannoeth. Gwnês yn siŵr fy mod yno mewn pryd. Ar y ffordd fe sylwais fod y Triumph wedi diflannu.

Yr oeddent awyren wedi ei dal yn ôl. Roeddent wedi ehedeg i storm drydanniol rhywle dros yr Iwerydd. Pan gyrhaeddodd o'r diwedd y peth cyntaf ddwedodd yr arglwyddes oedd, 'Serch y gwres, rwy' bron â chorff i clyw.'

Rhododd ei llaw i mi i'w themlo, wn i ddim a oedd hi'n disgwyl ei chael yn ei hôl ar unwaith a'i peidio, ond fe'i cafodd.

'Tyrd i ni gael coffi,' meddai.

Uwchben y baned honno fe gefais hanes Quebec, rhwng iddi holi yn achlysurol ond nid yn rhy holi ongyrchol, sut yr oedd pethau wedi mynd yn y pen yma.

'Iawn,' meddwn i gan edrych i fy ngwpah. 'Cefais helynt bach hefo'r Vauxhall. Bu'n rhaid i mi ddefnyddio'r Rolls unwaith i fynd a Mrs Meads i lawr at y bws yn y pentre. Mae o'n iawn rŵan. Daeth Mr Alexander i fyny o'r garej.' A dyna hynny â fu.

Pan oeddwn yn dadlwytho ei heiddo ar ôl cyrraedd, dywedodd,

'Mae 'na bael i ti yn y fan yna, o Quebec.'

Gwyddwn cyn ei agor mai llyfrau oeddynt.

Diwrnod neu ddau cyn y Nadolig yr oeddwn wedi cael pnaun rhydd i fynd at y deintydd. Trannoeth, a minnau'n gweithio ar ymyl y lawnt fawr, daeth yr arglwyddes ataf.

Helô,' meddai heb ddefnyddio f'enw. 'Gefaist ti wneud dy ddannedd?'

'Do yn iawn.'

'Gyda llaw, pan oeddet ti i ffrwd cefait ymwelwyr.'

'Y fi . . . yn y rhan yma o'r byd?'

'Wel pam? Rhyw lanc ifanc a'i fam. Roeddwn nhw'n awyddus i ddiolch i ti.'

'Am beth yn eno'r trugaredd?'

'Yn un peth — am awgrymu enw iddo.'

'Pa enw?' gofynnais wedyn mewn penbleth llwyr nes iddi ateb.

'Royce. Gwreiddiol fuaset ti ddim yn dweud? Gadawodd y fam ei chyfeiriad. Rhag ofn y buaset yn hoffi cysylltu.'

Rhododd bapur yn fy llaw. Darllenais: 'Suzi Godden . . . Crawley'.

Plygais y papur. Doedd gen i ddim i'w ddweud.

'Geneth ddymunol,' meddai hi wedyn. 'Ond prin dy fath di — a doedd 'na ddim sôn am dad. Mae 'na lawer o rai tebyg o gwmpas erbyn hyn yn chwilio am dadau i'w plant. . .'

Ciliodd wysg ei chefn. Yna aeth i gyfeiriad y tŷ. Pan oedd hi hanner y ffordd ar draws y lawn trodd wedyn.

'Mae'r llwyni newydd wedi sefydlu yn dda John, fuaset ti ddim yn dweud?'

'Da iawn farglwyddes.'

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Cwmni
TARIAN
Cyf.

Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.
TARIAN
6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Gwellhad buan: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Megan Olwen Jones, 21 Dôl Afon, wedi iddi dderbyn triniaeth lawfeddygol, hefyd ei phriod Mr John Jones sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. **Dathlu Gŵyl Ddewi:** Cafwyd noson o Gawl a Chân yng nghwmni Edward Morus Jones a phlant yr ysgol, yn yr Ysgol Gymuned, ar nos Lun, 1 Mawrth. Cynhaliwyd raffl yn ystod y noson a'r enillwyr oedd: Mrs Enid Price; Mr Tom Owen; Michael Bellini; Mrs Ware; Claire Pritchard; Mr Atkinson, Ty 'Rardd; Rhys Morris; Jones, Gelynen House; Iris Rowlands; Mrs Dilys Jones; Mrs Rita Williams; Mrs Gwyneth Chick. Dymuna'r Pwyllgor y Ganolfan ddiolch i bawb am y gwobrau.

Clwb Pobl y Cwm: Ar Fawrth 4ydd bu'r aelodau am swper ym Mwyty Tŷ Golchi. Cafwyd pryd o fwyd arbennig o dda a phawb wedi mwynhau eu hunain, a bron â chyfaddef iddynt fwyta gormod!

Mr Llew Hughes, y llywydd, fu'n gofalu am y sgwrs ar Mawrth 18fed, ac i fyd a gwaith Dylan Thomas y troes. Cafwyd rhai dyfyniadau diddorol a thrafodaeth bellach gan yr aelodau ac fe ddiolchwyd i Mr Hughes am bnawn difyr. Gofalwyr am y baned a'r raffl oedd Mrs H. Roberts a Mrs M. Williams, a'r enillydd oedd Mr Llew Hughes.

Undeb y Mamau: Gweinyddwyd Cymun y Grawys yn Hafan Elan, Llanrug, gan y Parchg P. Pritchard ar nos Lun, 8 Mawrth. Y darllenwyr oedd: Mrs E. Taylor, Mrs H. Orritt, Mrs J. Side a Mrs J. Ransom. Croesawyd dwy aelod newydd, Mrs Crawen o St. Helens a Mrs Thomas o Fangor. Trafodwyd rhai materion gan Mrs Taylor. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs Marjorie Robers, Mrs Gwyneth Robers a Mrs Hilda Orritt, a diolchwyd iddynt gan Mrs J. Side. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Dorothy Jones ac fe'i henillwyd gan Deiniol Pritchard. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi.

Yr Ysgol Feithrin: Yn ddiweddar cynhaliwyd raffl fawr i godi arian i'r Cylch. Gwnaed elw o £80.10 ac fe hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd.

Ar hyn o bryd mae yna 14 o blant yn dod i'r Cylch, a thri arall yn dechrau ar ôl y Pasg, ac mae'r plant i gyd yn brysur yn gwneud wyau a chardiau erbyn y Pasg.

Os oes yna blentyn eisiau dechrau yn y Cylch Meithrin ym mis Medi, ac yn 2½ oed neu fwy, cysylltwch â Judith ar 870282 mor fuan â phosib gan fod y rhestr aros bron yn llawn. **Ysgol Gymuned Cwm-y-glo:** Ar Fawrth 1af trefnodd pwyllgor y Neuadd noson lwyddiannus iawn o Gawl a Chân i dathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd digon o ganu a chwerthin yng nghwmni Edward Morus Jones, Llandegfan. Gwahoddwyd plant yr ysgol hefyd i gyflwyno eitemau canu, adrodd ac offerynnol.

Cafodd Paul Fleetwood o'r Dosbarth Derbyn ddamwain ar fuarth yr ysgol. Yn anffodus fe dorrodd ei fraich — ond bu'n hynod o ddewr. Bellach mae'r platar mawr yn llawn o enwau ei deulu a'i ffrindiau.

Ddiwedd mis Chwefror, colodd Miss Wendy Smith ei thaid oedd yn byw yn Mangor. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr i iddi hi a'i theulu yn eu profedigaeth. Ar yr un pryd, llongyfarchwn Miss Smith ar ei llwyddiant ar ddiwedd ei chwrs yng Ngholeg Technegol Bangor.

Am ddau dymor treuliodd Miss Llinos Jones o Ysgol Brynrefail bob dydd Gwener gyda phlant Bl. 3-6. Gobeithio'n wir ei bod wedi mwynhau'r cyfnod ac y bydd yn profi'n werthfawr iddi. Carem ddiolch o galon iddi am ei gwasanaeth a'i hymroddiad a dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei harholiadau Lefel-A ac yn ei gyrfa yn y dyfodol.

Er na chafwyd llwyddiant yn Eisteddfod Cylch yr Urdd, roedd yn braf gweld y plant yn mwynhau eu hunain yn cystadlu. Diolch i'r rhieni hwythau am eu cefnogaeth ar y dydd. Yn yr adran Celf a Chrefft, fodd bynnag, mae'n bleser adrodd am llwyddiant y plant canlynol. Gyda gwaith Collage daeth Ceri Davies a Clair Pritchard, Bl.2, yn gyntaf; Matthew Barnicott, Bl.4 yn ail a John Callaghan, Bl.2 yn drydydd. Daeth Robert Davidson, Bl.6, yn gyntaf ac ail yn yr adran Graffeg Gyfrifiadurol. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Aeth gwobr gyntaf Clwb yr Ysgol am fis Chwefror i Mr Eifion Jones, Glandŵr, a'r ail wobr i Terry Williams, Clanbogelyn.

Os oes gennych blentyn fydd yn bedair oed erbyn diwedd Awst eleni, yna mae'n bwysig eich bod yn ei gofrestru ar lyfrau'r ysgol rŵan. Mae

croeso cynnes i chwi ddod i'r ysgol i gael sgwrs a chyfarfod a'r athrawon. Fe gewch y ffurflen angenrheidiol yn yr ysgol.



Edward a'r plant yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yn yr ysgol.

CLWB ERYRI

Cyfarfu'r Clwb ar nos Wener, 5ed o Fawrth, i dathlu Dydd Gŵyl Ddewi â chinio yng Ngwesty'r 'Gwynedd', Llanberis. Cafwyd cefnogaeth iach gan yr aelodau a'u cymheiriaid, ac wedi lluniaeth blasus, diddanwyd y cyfarfod ag anerchiad hwyliog a sylweddol gan y gŵr gwadd, y Parchg Emlyn Richards, Bae Cemaes, Môn, ar 'Hen Borthmyn Môn'. Soniodd am y cyfraniad a wnaethant i ddiwylliant a Chymreictod ein cymdeithas a'r duedd fu i anwybyddu hyn yn rhengoedd y sefydliad Cymraeg. Rhoddodd inni

arlwy cymysg o chwaethus o sylwedd hanesyddol a gyfoethogwyd â hiwmor a ffraethineb arbennig. Cyflwynwyd y siaradwr gan lywydd y Clwb, y Parchg Gwynfor Williams, a diolchwyd iddo gan yr is-lywydd, Mr Eurwyn Jones — y ddau o Lanberis.

Cyn cloi, atgoffwyd yr aelodau am y cynlluniau ar y gweill i drefnu'r wibdaith flynyddol ar Fehefin 19, a bydd cyfarfod o'r swyddogion a'r Dr Eurwyn Lloyd Evans, Llanrug (Trefnydd), i drafod y cyfryw.



SIOP GREFFTAU
CAFFI

CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. – 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyraains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch

870605

am fanylion

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd — Adran Bentref.

Mawrth 2: Fe fwynhaodd pawb ddawnsio gwerin gyda Mrs Judith Harding.

Mawrth 9: Roedd pawb yn chwys domes yn chwarae gêm, Unihoc, diolchodd Cenin i Rhian am ofalu am y gêm.

Mawrth 16: Cafodd y plant gyfle i wneud anrheg ar gyfer Sul y Mamau gyda Mrs Gwen Roberts, Weirglodd Goch. Diolchodd Jenny iddi am noson ddiddorol dros ben.

Mawrth 23: Diolchir i'r Clwb leuenctid am gael defnyddio'r adnoddau i gynnal noson o wahanol gemau.

Eisteddfodau'r Urdd: Chwefror 27 bu Vincent Thomas yn cynrychioli'r Adran yn y gystadleuaeth dawnsio disgo unigol dan 12 oed yn Eisteddfod Cylch Arfon yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. Balch oeddem o'i weld yn cael y wobr gyntaf a chael mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Aeth criw i'w gefnogi yn Ysgol Bro Lleu, Pen-y-groes ar nos Iau, Mawrth 11. Roedd pump yn cystadlu a daeth Vincent yn ail. Llongyferchir ef ar ei lwyddiant a diolchir i Rhian a Susan am roi eu hamser i'w hyfforddi.



Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd: Mawrth 5ed daeth nifer o chwiorydd yr ardal ynghyd i Gapel Bosra i gynnal eu gwasanaeth arbennig, yn ôl ein harfer.

Llywydd y cyfarfod oedd Mrs Judith Harding, Y Winllan, a rhoddwyd anerchiad feddylgar, ardderchog gan Mrs Nant Roberts. Cyfeiliwyd gan Mrs Nansi Jones. Bu i gynifer o chwiorydd gyfrannu i'r

oedfa, yn eu plith — Mrs Eirlys Jones, Mrs Mary Davies, Miss Sioned Jones, Miss Nia Lewis, Mrs Eluned Jones, Mrs Janice Jones, Mrs Siân Shakespeare, Miss Mair Foulkes, Mrs Elizabeth Jones, Mrs Delyth Williams, Mrs Eleanor Williams, Mrs Nansi Jones, Mrs Ann Ifans, Mrs Eleanor Jones a Mrs Pat Larsen. Diolch i bawb am y parodrwydd i gefnogi'r oedfa yn flynyddol.

Llongyfarchiadau: Llongyferchir Pat a Leslie Larsen ar fod yn nain a thaid unwaith eto.

Ysgol Sul Bosra: Y mae'r plant wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer dwy Gymanfa. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr ar Ebrill 18, yng Nghapel Jerusalem, Llanberis ac fe drefnir bws a gwneir casgliad fel yr arfer. Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid ym Mangor a threfnir bws i fynd yno hefyd. 'Y Dyn Diarth Da' yw tesun cyfraniad Bosra at y ddwy Gymanfa.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant mis Chwefror yn yr Ystafell Gymuned, a'r enillwyr oedd: 1, Sian a Bethan Pritchard, Caernarfon; 2, Gwen Roberts, Weirglodd Goch; 3, Caren Jones, Camelot.

Y mae ffôn dalu wedi'i gosod yng nghyntedd yr Ysgol, wrth yr Ystafell Gymuned, er budd y rhai fydd yn defnyddio'r Neuadd a'r Ystafell Gymuned ar gyfer pwyllgorau ac amrywiol weithgareddau.

Atgoffir chwi o delerau defnyddio'r ystafelloedd a'r adnoddau —

Neuadd:

£6 i ddefnyddwyr lleol.

£9 i ddefnyddwyr o'r tu allan i'r pentref.

£20 i ddefnyddwyr masnachol (megis arwerthiannau).

Ystafell Gymuned:

£4 i ddefnyddwyr lleol.

£6 i ddefnyddwyr o'r tu allan.

Bydd tâl ychwanegol o £1 am ddefnyddio'r gegin a'r llestri.

Os dymunir defnyddio'r ystafelloedd hyn gofynnir i chwi gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Prifathro gan roi wythnos o rybudd, bydd yntau yn ymgynghori â chadeirydd y pwyllgor. Gofynnir i'r defnyddwyr wneud yn glir p'r un ai y Neuadd ynteu yr Ystafell Gymuned y maent am ei defnyddio.

Raffl Fawr: Gwerthir tocynnau raffl yn ystod y misoedd nesaf ac fe'i tynnir ar Sadwrn y Carnifal ym mis

Gorffennaf. Bydd tocynnau ar gael gan aelodau'r pwyllgor ac unrhyw un sy'n dymuno gwerthu rhai er budd y Neuadd Gymuned.

Cydymdeimlo: Brawychwyd y pentref ar fore Sul, Mawrth 21ain, gyda'r newyddion trist am farwolaeth sydyn Mr Clifford Richardson, Bryn Hyfryd. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Brenda Richardson, Jonathan a Ken, Mrs Eirlys Jones a'r cysylltiadau oll.

Sefydlu Pwyllgor Apêl: Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn yr Ystafell Gymuned ar nos Lun, 19 Ebrill 1993, am 7.30 o'r gloch, gyda'r bwriad o sefydlu pwyllgor apêl tuag at Gronfa Haematoleg a Canser Gwynedd.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Iwan Griffith Williams, Cae'r Bledodyn, am ennill medal am ganu, o dan 8 oed, yn Eisteddfod Talsarnau. Dalier ati.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod y mis nesaf —

Ebrill

4: 2.00, Cymun, Y Gweinidog.

11: Sul y Pasg. Gwasanaeth am 10.

18: 5.30, Parch Gwynfor Williams.

25: 2.00, Y Gweinidog.

Mai

2: Cymanfa — dim gwasanaeth lleol.

9: 10.00, Bugail.

Sioe'r Pentref: Bydd y Rhaglen eleni'n debyg iawn i un y llynedd. Gellir gweld yr eitemau garddio a

chrefft llaw ar hysbysfwrdd y pentref. Mae rhaglenni ymlaen llaw ar gael oddi wrth y cadeirydd, Clive James, Hafan, Rhesdai Bryngwna. Cynhelir y Sioe eleni ar ddydd Sadwrn, 14 Awst.

Pwyllgor Cae Chwarae: Mae tynfa'r pentref yn creu incwm da i'r pwyllgor ac maent yn dra diolchgar am gefnogaeth yr ardal. Gellir ymuno trwy gysylltu ag aelod o'r pwyllgor neu'r cadeirydd, Clive James, Hafan, Rhesdai Bryngwna. Dros wyliau'r Pasg bydd Helfa Wyau Pasg ar lawnt Plas Glangwna (gyda diolch i Mr Eric Jones) ac arwerthiant cist car ar ganol ddydd, Sadwrn 10 Ebrill. Yn ystod yr wythnos flaenorol bydd plant y pentref yn casglu nwyddau ar gyfer 'cist' y pwyllgor.

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi

★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)

★Gwres canolog llawn

★Sustem ddiogelu rhag tân

★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw

★Sustem alw nyrs

★Yn Cwrdd â phob angen personol

★Lle bwyta mawr

★Aros cyfnod hir/byr

★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol

★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.

★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg

★Coginio cartefol

★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg

★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn 1.3.93 — £35: Mrs O'Donnell, Grove House (19); £25: Mrs Clare, 3 Mur Mawr (196); £15: Mrs E. Jones, Dakota (47); £10: Mr G. Roberts, Ffordd Capel Coch (158); £5: Mrs M. Davies, Stryd yr Wyddfa (98).

Brenhines Newydd: Cynhaliwyd Disgo yn Ysgol Dolbadarn i ddewis Brenhines Carnifal 1993 ac fe hoffai'r pwyllgor ddiolch i Raymond a Sian, Y Llythyrdy, am ddiddori'r plant. Dewiswyd Mari Wyn Williams, 6 Rhes Fictoria, yn Frenhines. Y Gweinyddesau yw Gwenan Jones, 1 Llainwen Isaf a Nicola Hughes, Glanfa, Stryd Capel Coch, a'r gwas yw Idwal Ll. Williams, Harford Hill. **Cyfeillach Capel Jerusalem:** Yng nghyfarfod prynhawn Mawrth, 9 Mawrth, o dan lywyddiaeth y Gweinidog, y Parchg Gwynfor Williams, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Robert Lloyd yn cyflwyno i ni hanes a chefnidir y llun adnabyddus 'Salem' gan Vospice. Darparwyd lluniaeth gan chwirydd y Gymdeithas. Bydd y cyfarfod nesaf am 2 o'r gloch, dydd Mawrth, 6 Ebrill, pryd y disgwylir Mrs Elizabeth Jones, Pentre Castell, i rannu rhai o'i hatgofion am y gymdeithas leol yn y gorffennol.

Sefydliad y Merched: Cynhaliwyd cyfarfod yn Angorfa ar 2 Chwefror i ail-ddechrau Cangen o'r Sefydliad yn Llanberis. Etholwyd y swyddogion canlynol — Llywydd: Mrs Pat Jones; Is-lywydd: Mrs Alwen M. Roberts; Ysgrifenyddes: Mrs Dilys Jones; Trysorydd: Mrs Glenys Jones; Gohebwr y Wasg: Mrs E. Jones. Cynhelir y cyfarfodydd ar y pedwerydd dydd lau o bob mis, am 7.30 o'r gloch yn Angorfa. Croeso i aelodau newydd.

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn, Llanberis: Dathlwyd gŵyl ein nawddsant gan yr aelodau ar nos lau, Mawrth 4ydd, gyda'r cawl cennin a theisen gri draddodiadol yng Ngwesty Dolbadarn. Wedi'r croeso gan y cadeirydd, Mrs Ann Parry-Jones, diddanwyd ni gan Mr J. H. Hughes, Tan-y-clogwyn, gyda'i atgofion doniol am ei blentyndod, ac am ddyddiau coleg a'i yrfa fel athro a phrifathro. Roedd yr aelodau wedi gwisgo hetiau amrywiol eu naws, ac wedi hir gysidro ar ran y beirniad, dyfarnwyd mai het Joyce Foulkes oedd yr un fwyaf deniadol ac yn wir haeddu'r wob. Enillwyd y raffl gan Gwyneth Parry. Cafwyd ychydig o gyd-ganu o dan arweiniad Mr J. Hughes a Gareth Jones yn cyfeilio. Diolchwyd i'r siaradwr gwadd ac i bawb a gymerodd ran gan Mr Ralph Jones, Taliesin.

Côr Meibion Dyffryn Peris: Cafwyd noson arbennig o lwyddiannus yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Sadwrn, 20 Chwefror, yng nghwmni John ac Alun, sy'n enwog trwy Gymru am eu canu gwlad a'u dawn arbennig o ganu caneuon hen a newydd. Diolch hefyd i Brenda Edwards o Fôn, hithau gyda dawn arbennig i greu awyrgylch a oedd wrth fodd y gynulleidfa. Arweinwyd a threfnwyd y noson gan Elwyn Wilson Jones. Trefnwyd y raffl gan Roy a Robin a'r enillwyr oedd: Eifiona Harries, Medwyn Roberts, Iwan Evans, John Dei, Katie Williams,

Robin, Betty Jones, Mac, Ceinwen Jones, 830240, Mary Deiniolen.

Ar nos Sadwrn, 17 Ebrill, daw Vernon a Gwynfor a Chantorion Llanberis i'n diddanu yng Ngwesty Dolbadarn. Dewch yn llw.

Rhedwyr: Ar 6 Mawrth aeth rhai o blant y pentref i gyfarfod Rhedeg Traws-gwlad Gwynedd a dyma'r canlyniadau — dan 15: 1, Alun Vaughan. Bechgyn dan 11: 2, Gareth Jones; 4, Alwyn Jones. Genethod dan 11: 1, Elin Harding; 2, Rachel Jones; 4, Sarah Jones; 6, Rebecca Jones.

Dyma ganlyniadau Rhedeg Traws-gwlad a gynhaliwyd ar Lannau Dyfrdwy, Mawrth 14 — Bechgyn dan 15: 2, Alun Vaughan. Bechgyn dan 11: 3, Gareth Jones; 9, Alwyn Jones; 11, Ifan Williams; 14, Idwal Williams. Genethod dan 11: 5, Elin Harding; 6, Rachel Jones; 9, Rebecca Jones.

Theatr Fach Gorffwysfa: Bydd agoriad swyddogol y Theatr, canolfan newydd Cwmni Drama Llanberis, ar nos Lun, Ebrill 5 am 7 o'r gloch. Disgwylir Mr Dafydd Wigley, AS, i ddadorchuddio carreg i nodi'r achlysur, a'r llywydd fydd y Parchg John Owen, Rhuthun. Bydd y Cwmni yn perfformio'r gomedi 'Awel Dro' ar y noson. Bydd y cwmni yn perfformio'r ddrama y noson ddilynol hefyd, sef nos Fawrth, Ebrill 6, am 7 o'r gloch. Mae oddeutu 60 tocyn ar gael ar gyfer y noson agoriadol, a digon o docynnau ar gael ar gyfer yr ail noson. Gellir eu cael am £2 yr un oddi wrth Gareth Morris, Oakfield, Ffordd Capel Coch.

Capel Coch: Mae'r Cyfarfod Plant wedi cyrraedd pen ei dymor unwaith eto, a chafwyd tymor llwyrchus iawn ers mis Medi. Roedd 80 o blant wedi ymaelodi a rhwng 35 a 40 ar gyfartaledd yn dod at ei gilydd bob wythnos. Diolch i'r rhieni am eu diddordeb yn y gwaith, ac i bawb a fu'n helpu o wythnos i wythnos, yn arbennig Mrs Vera Griffith a oedd eleni eto ym mhob cyfarfod.

Dydd Gweddï Byd Eang y Chwilydd: Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol hwn yn festri Nant Padarn, ddydd Gwener, Mawrth 5. Roedd holl gapeli ac eglwysi'r pentref yn cael eu cynrychioli yn yr oedfa. Mrs Hannah Jones oedd yn llywyddu; cafwyd anerchiad gan Mrs Dilys Bayliss; a Mrs Falmi Pritchard oedd y cyfeilydd a'r trefnydd.

Ysgol Dolbadarn: Treuliodd plant blwyddyn 6 ddiwrnod yn Ysgol Brynrefail. Buont hefyd yn yr Amgueddfa'n y Gilfach Ddu i weld y

FFOTOGRAFFWYR NEWYDD

Cafwyd ymateb i'n cais am gymorth y mis diwethaf. Addawodd Gareth Williams o Lanrug dynnu lluniau tra mae Tony Storey o Ceunant wedi addo tynnu a datblygu lluniau. Diolch i'r ddau am gynnig eu gwasanaeth. Mae angen o hyd am rywun i ofalu am gamera neu ddau sydd i'w cadw ym mhentrefi eraill y fro. Cysylltwch â Gwyndaf Hughes neu un o'r golygyddion os gellwch helpu. Diolch hefyd i Iolo Griffith a Calfin Morgan a fydd yn dosbarthu'r Eco ym Maes Padarn, Llanberis, o'r mis hwn ymlaen.



Cafwyd gornest snwcer dda yn y Ganolfan yn ddiweddar pan enillwyd Cwpan Coffa Wil Penny Williams am eleni gan Dafydd Arfon Hughes. Yn y rownd derfynol bu'n fuddugol mewn gêm glôs rhyngddo ef a Noel Owen. Yn y llun, gwelir John a Huw Penny yn cyflwyno Cwpan Coffa eu tad i Arfon (yr ail o'r chwith). Yn y llun hefyd gwelir Noel Owen, ynghyd ag Alan Jones ac Oliver Edwards fu'n dyfarnu ac yn cadw'r sgôr.

perfformiad 'Bara Llwyd' a drefnwyd gan Cadw. Cafwyd golwg ar fywyd a chaledi'r cyfnod drwy'r cyflwyniad. Crewyd pwll yng ngardd yr Ysgol gan y plant dan gyfarwyddyd aelodau'r Comisiwn Cefn Gwlad.

Cynhaliodd Ffrindiau'r Ysgol noson llestri ac ymbincio yng Ngwesty'r Dolbadarn, a bwriedir trefnu noson debyg yn yr hydref.

Dymunwn yn dda i Mr ap Elwyn sy'n bwriadu rhedeg ym Marathon Llundain ar Ebrill 18. Cysylltwch â ni yn yr Ysgol os oes gennych awydd ei noddi er budd yr Ysgol.

Pêl-droed: Cafodd tîm pêl-droed dan 10 oed Llanberis gêm ddi-sgôr yn erbyn Cae Glyn, a bu dathlu mawr gan eu bod wedi colli pob un o'u pum gêm gyntaf o sgôr uchell

Diolchiadau

Dymuna Mrs Clara Roberts, Gwynfor a Jean, Bwlch Uchaf, Deiniolen, ddiolch yn ddiffuant i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli y diweddar Goronwy Roberts. Diolch i'r Parchg John Pritchard, y meddygon a'r nyrsus am eu gwasanaeth diffuant. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at Fedydgyfa Waunfawr.

Dymuna Nicola Baylis, Anfield, 4 Coed-y-Ddôl, Llanberis, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a Chlwb Pêl-droed Llanberis, am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a gafodd tra'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Maesdu, Llandudno, ac wedi iddi ddod adref. Diolch yn fawr.

Dymuna Aled, mab Delyth a Selyf, Tan Dderwen, 6 Fron Goch, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion oll

am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Geraint ac Anwen Jones, 190 Ffordd Penrhos, Bangor, ddiolch yn fawr i bawb am y llw cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch fach, Lowri Idris, ar Fawrth 14eg. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Robin ac Eryl Jones, 14 Stryd y Ffynnon, Llanberis, ddiolch i bawb am y llw cardiau a dderbyniasant ar enedigaeth eu wyres fach, Lowri Idris. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mrs Mair Owen a'r teulu, Vyrnwy House, Stryd Fawr, Deiniolen, ddiolch i bawb am bob cydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad a thaid annwyl. Diolch o galon hefyd i'r nyrsus lleol a'r meddygon am eu gofal tyner amdano.

FFLAM ERYRI

C.O.R.G.I.

GWASANAETH A GWERTHIANT OFFER NWY

♦ TANNAU ♦ POPDAI

♦ BOILERI ♦ GWRES CANOLOG

Y cyfan wedi eu danfon a'u gosod yn broffesiynol am brisiau rhesymol gyda gwarant llawn.

Rydym yn gwerthu y cyfan sydd ar gael gan Nwy Prydain ac mae prisiau yr offer ar gael dros y ffôn gennym.

Hefyd ar eich cyfer, Tanciau L.P.G. wedi eu gosod heb ddim cost a nwy rhad i roi ynddynt.

ATGYWEIRIADAU, GWASANAETHAU BLYNYDDOL A GWASANAETH DARNAU AR FRYS

(0492) 650013

Perchennog — Geraint Fôn Williams, Glanrafon Eglwysbach, Bae Colwyn, Clwyd LL28 5UD

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Merched y Wawr: Bu 32 o aelodau'r gangen uchod yn y Bristo, Llanberis, ar 9 Mawrth yn dathlu Gŵyl Ddewi, a chafwyd pryd o fwyd blasus iawn. Llywydd y noson oedd Menna Williams, yn absenoldeb Nan Humphreys sydd heb fod yn rhy dda. Anfonwyd ein dymuniadau da iddi, ac at yr aelodau eraill sy'n wael. Diolchodd y llywydd i Gwenda Roberts am drefnu'r noson. Diolchwyd hefyd i'r rhai a gyfrannodd nwyddau neu gymorth i wneud y bwyd yn Eisteddfod yr Urdd. Enillydd y raffl oedd Jennie Williams.

Dalier sylw mai ar 20 Ebrill y cynhelir y cyfarfod nesaf pryd y ceir cwmni cangen Dinas mewn cwis yng ngofal Elwyn Hughes.

Cyfarfod Dydd Gweddidi Byd-eang y Chwiorydd: Prynhawn Gwener, 5 Mawrth, cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghapel y Rhos, Llanrug, dan arweiniad Mrs Megan Williams.

Gwagedd Cristnogol Gwatemala oedd yn ein gwahodd i uno yn y gwasaneth hwn, a'r thema oedd 'Pobl Dduw, Cyfryngau i lachâu'.

Cymerwyd rhan gan Mrs Bethanne Williams, Mrs Ceridwen Williams, Miss Megan Humphreys, Mrs Mair Jones, Mrs Helen Parri, Mrs Jean Davies, Mrs Jones-Evans, Mrs Beryl Thomas, Mrs Parry, Mrs Amy Smith, Miss Llinos Davies, Mrs Katie Griffiths, Mrs Jennie Williams, Mrs N. Lovatt, Mrs Owen a Mrs Myfi Roberts.

Plaid Cymru: Y siaradwr gwadd mewn cyfarfod diweddar o'r gangen oedd Iwan Roberts a chawsom sgwrs hynod ddiddorol ganddo am hanes lleol a hel achau. Llywydd y noson oedd Phyllis Ellis a chroesawodd bawb yno. Diolchodd hefyd i'r aelodau oedd wedi cyfrannu, neu drefnu i gyfrannu, drwy orchymyn banc i Gronfa Etholaeth Arfon. Bu'r ymateb yn galonogol iawn. Os hoffai unrhyw un arall gyfrannu neu gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r ysgrifennydd ar 650200. Rhoddwyd y raffl gan Olwen Llywelyn a'r enillydd oedd Mrs J. Davies, Rhyd y Delyn. Enillwyr diweddaraf y Clwb Cant yw — Chwefror: 1, Valmai Owen; 2, Mair Parry, Tir na Nog; Mawrth: 1, Gomer Roberts, Penisarwaun; 2, Betty Peris Jones, Egryn.

Daeth cynulleidfada dda i berfformiad gan Gwmni Bara Caws ar nos Fercher, Mawrth 17, yn Ysgol Brynrefail. Enillydd y raffl oedd Stanley Owen, Bontnewydd. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth, ac yn arbennig am y nawdd a gafwyd gan Siôn Humphreys, Ffilmiau Bryngwyn.

Fe drefnir Sêl Cist Car ar iard yr Ysgol Gynradd, nos Fercher, Ebrill 21, am 6.30 o'r gloch.

Dymunwn yn dda i Eryl Roberts a'i ffrind Siân Griffiths, Waunfawr, ar eu menter busnes newydd.

Anfonwn ein cofion at yr aelodau sydd yn cwyno, gobeithio y byddwch i gyd yn well yn fuan.

Wedi gwella: Rydym yn falch o weld Owen Jones, Fferm y Garth, yn gwella yn dda wedi ei arhosiad yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl, yn ddiweddar.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Fel rhan o'u gwaith thema ar ddatblygiad yr ardal mwynhawyd cyflwyniad dramatig yn y Gilfach Ddu dan nawdd Cadw. Cafwyd portread o'r Cload Allan a'r gwrthdaro rhwng undeb y chwarelwyr a Mr Vivian, y goruchwyliwr. Roedd y plant yn chwarae rhan yn y ddrama.

Daeth Iwan Roberts i'r ysgol at Blwyddyn 1 a 2 i ddangos sleidiau o Lanrug ers talwm a'r newid sydd wedi digwydd. Roedd y plant wrth eu bodd yn chwilio am wahanol rannau o'r pentref sy'n berthnasol iddyn nhw a sylwi ar y gwahaniaeth rhwng Ddoe a Heddiw. Diolch yn fawr Mr Roberts am brynhawn difyr iawn.

Cafodd plant Blwyddyn 6 gyfle i baratoi ar gyfer mis Medi wrth fynd i dreulio diwrnod yn Ysgol Brynrefail. Roeddynt yn cael blas ar y math o fywyd gwahanol a fydd yn eu wynebu a phawb wedi mwynhau ac yn edrych ymlaen ar ôl y croeso a gafwyd.

SÊL CIST CAR
ar iard yr Ysgol Gynradd
Llanrug
Nos Fercher, Ebrill 21
am 6.30 o'r gloch.

£3 y car

Trefnir gan cangen Llanrug o Plaid Cymru

Cynhaliwyd Twrnament Pêl-rwyd Gwynedd yn Llangefni ac fe aeth tîm o'r ysgol yno — ond ni fuont yn llwyddiannus eleni. Tîm Ysgol Deganwy oedd yn fuddugol. Da iawn genod, daliwch ati.

Yr Urdd: Llongyfarchiadau i bawb o'r plant gymerodd ran yn yr eisteddfod Cylch ym Mrynrefail ar Fawrth 6ed. Gwnaeth pawb eu gwaith yn ardderchog ac fe enillodd yr ysgol darian am yr ysgol uchaf ei marciau yn y cylch. Pob lwc i'r plant yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor, Mawrth 27.

Nos Fercher, Mawrth 17, roedd neuadd yr ysgol yn orlawn o gynnyrch Celf a Chrefft yr Urdd. Roedd amrywiaeth ardderchog o waith gan blant y fro yma. Bu nifer o blant unigol a grwpiau o'r ysgol yn fuddugol. Pob lwc iddynt hwythau yn y sir hefyd.

I gloi rhaglen yr Urdd am eleni

daeth Mr John Owen ac Owi'r ci i roi sgwrs i'r plant am y deillion.

Enillwyr Clwb Cant am fis Mawrth — 1, Meirir Williams, 22 Bryn Moelyn; 2, J. Hughes, 30 Glanffynnon; 3, Siôn Humphreys, Pant Bryngwyn; 4, Emyr Jones, 44 Glanffynnon; 5, Margaret Williams, Bryn, Cwm-y-glo. **Y Seindorf:** Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Seindorf ar nos Iau, 29 Ebrill am 7 o'r gloch yn Ystafell y Seindorf. Mae hawl gan unrhyw berson sy'n byw yng nghymuned Llanrug fynychu'r cyfarfod.

Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ddoe yn ail yn eu hadran ym mhencampwriaeth gogledd Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llandudno.

Pontins: Dymuniadau gorau i'r Seindorf yng nghystadleuaeth Pontins, Southport, sydd i'w chynnal ddydd Sadwrn, 10 Ebrill.

DATHLU GŴYL DDEWI



Rhai o aelodau canghennau Plaid Cymru Llanrug, Waunfawr a Deiniolen yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Cafwyd Twmpath Dawnsio Gwerin o dan arweiniad Elfed Roberts, Trefnydd Plaid Cymru yn Arfon. Enillwyr raffl y noson oedd: 1, Haf Thomas, Buarthau; 2, Mrs J. E. Parry, Morannedd; 3, Anwen Owen, Dyffryn, Bryn Moelyn.




Y grŵp 'Aderyn Prin' a fu yn cyfeilio i'r dawnsio gwerin i ganghennau Plaid Cymru yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Daw aelodau'r grŵp o'r ardal, ac erbyn hyn mae'r 'dysgwyr' yma yn siarad Cymraeg yn rhugl yn ogystal â chanu a chyfeilio alawon Cymreig yn swynol iawn. Aderyn prin yn wir. Os hoffech eu clywed cysylltwch â hwy ar (0248) 355135.

Bistro
43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871278



GWASANAETH NEWYDD
I FERCHED, DYNION A PHLANT
TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
LINDA MORRIS
1 BRYN FEDWEN, Ffordd yr Orsaf
LLANRUG. Ffôn: 678857

CROESAIR EBRILL



AR DRAWS

1. I bysgota (5)
6. Rhan o frawddeg (5)
9. Alun Jones nue I.F.F.E. (7)
10. Dynwaid fenywaidd (5)
11. Ffisig sawl tro (5)
12. Dwsin o weithiau'r flwyddyn (5)
13. Teimlo'n isel (7)
15. Ffordd o Bwllheli am Lŷn (3)
17. Hen gastell (4)
18. Nid yr ail (6)
19. Siôl gyntefig (5)
20. Pur wahanol (4,2)
22. Y llafariad cyntaf yn lle'r olaf yn y ffurf fodern o ymlacio (4)
24. Taenu'r saim (3)
25. Man cychwyn afonig (7)
26. Enw merch neu afon (5)
27. Drwg am ddrwgl (5)
28. Mae'n dal fy ngwynt (5)
29. Pysgodyn gwerth ei bwysau (3,4)
30. Pentref yn Llŷn (5)
31. Gwlad Geltaidd (5)

I LAWR

2. Ffrwyth (6)
3. Rhan o ddywediad enwog lfas (1,5)
4. Drws tu allan (3)
5. Hwn ynteu hwn (5)
6. Cwestiynu gyda'n gilydd (7)
7. Hi yw'r tegan i ferch hwyrach (1,3)
8. Mwyaf amheutun ar lafar gwlad (6)
12. Cawn hwn 'i feddwl' (5)
13. Digonedd o dir (5)
14. Gosod siâlens (5)
15. Yn nyfnder pell y cof (5)

16. Budr (5)
18. Dechrau cyfnod (5)
19. Rhai wyth yn y pulpud 'stalwm (7)
21. Am byth (6)
22. Sawl tro y dywedwn y gwnawn (3,3)
23. Gweiddi ar wartheg yn y de (4,2)
25. Pebyll yw'r term Cymraeg (5)
26. Ceg yr afon (4)
28. Offeryn saethu (3)

ATEBION CROESAIR MAWRTH



Nifer o geisiadau gan gystadleuwyf newydd y tro hwn a'r mwyafrif ohonynt yn gywir hefyd. Ambell un wedi rhoi 'nef' yn hytrach na 'neu' yn 29 ar draws, ond beth yw'r gwahaniaeth

Dyddiadur y Mis

EBRILL

5 Llun. Llanberis: Agoriad Swyddogol Theatr Fach Gorffwysfa, a Chwmni Drama Llanberis yn cyflwyno 'Awel Dro' am 7 o'r gloch.

6 Mawrth. Llanberis: 'Awel Dro' gan Gwmni Drama Llanberis yn Theatr Fach Gorffwysfa am 7 o'r gloch.

8 Iau. Deiniolen: Cyngor Eglwys Deiniolen — Cymundeb yn Ebeneser am 7 o'r gloch.

9 Gwener (Y Groglith). Dinorwig: Gorymdaith y Groglith yn cychwyn o Eglwys St Mair am 2 o'r gloch.

10 Sadwrn. Caeathro: Pwyllgor y Cae Chwarae — Arwerthiant Cist Car.

19 Llun. Brynrefail: Sefydliad y Merched. **Waunfawr:** Cyfarfod Blynnyddol Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch.

Penisarwaun: Cyfarfod Cyhoedus i sefydlu Pwyllgor Apêl Cronfa Haematoleg a Canser Gwynedd yn yr Ystafell Gymuned am 7.30 o'r gloch.

20 Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr. **Llanberis:** Swper y Gymdeithas Lenyddol yn Festri Capel Coch am 7 o'r gloch.

21 Mercher. Bethel: Merched y Wawr. **Llanberis:** Cyfarfod Gweddi Undebol yn Capel Coch am 2 o'r gloch. **Waunfawr:** Cyfarfod Blynnyddol yr Urdd am 6.15 o'r gloch.

Llanrug: Plaid Cymru — Sêl Cist Car ar iard yr Ysgol Gynradd am 6.30 o'r gloch.

23 Gwener. Cyrsiau Gymnasteg yn ail-ddechrau yn Ysgol Brynrefail am 4 a 5 o'r gloch.

26 Llun. Bethel: Noson er budd Cymdeithas Cwn y Deillion yn Festri Cysegr am 7 o'r gloch.

27 Mawrth. Cwrs Criced yn dechrau yn Ysgol Brynrefail am 5.30 o'r gloch.

29 Iau. Llanrug: Cyfarfod Blynnyddol y Seindorf yn Ystafell y Seindorf am 7 o'r gloch. **Deiniolen:** Plygu Eco'r Wyddfa.

RHODDION

£10: Clara Roberts, Gwynfor a Jean, Bwlch Uchaf, Deiniolen, er cof am y diweddgar Goronwy Roberts.

£5: Mai Owen a'r teulu, Vyrnwy House, Deiniolen; Geraint ac Anwen Jones, 19 Ffordd Penrhos, Bangor; Robin ac Eryl Jones, 14 Stryd y Ffynnon, Llanberis; Thomas A. Pritchard, Berth, Llanberis.

£3: Aled, Tan Dderwen, 6 Fron Goch, Llanberis; Di-enw, Brynsiencyn.

£2: Nicola Bayliss, Anfield, Llanberis; Delyth, 12 Maes Padarn, Llanberis.

£1: Joan ac Iorwerth Williams, Caernarfon.

60c: Miss M. Williams, 12 Rallt Goch.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyf

GORYMDAITH Y BUGEILIAID

A'r Bugeiliaid hwythau a ddaethant i Gaernarfon, I'r orymdaith brotest yn erbyn Herod Gummer greulon Fu'n torri grantia hael y ffarmwrs defaid mynydd. Yn awr eu helbul ymbilient, 'Gummer gad ni'n llonydd. A phaid, os gweli'n dda, a thorri'r grant — Trychineb fyddai simsanu'r gwarant.'

Atebwyd eu gweddi, arbedwyd y toriad; daeth gwys o Brwsel. A'r bugeiliaid a ddychwelasant yn llawen; Gummer oedd nawr yn angel). A'r gist yn llawn danteithion, dychwelwyd i'r ucheldir Gyda sicrwydd pellach am brisiau da yn Gaerwen ac yn Bryncir.

Daeth yr eira eto i Waun Gynfi A'r defaid i gyd yn arweddu eu beichiogi A hogia'r defaid barus yn rhwbio'i dwylo — Mae'r grant yn saff, go dda, mae'n talu i gwyno.

H.J.



THE
SEIONT
MANOR
HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDDEN

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

CARPEDI GLÂN

Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

CHWARAEON

GALWAD GENEDLAETHOL ARALL



Ers iddo dderbyn Tlws mis Mawrth, mae Alun Vaughan wedi dangos eto ei fod yn llawn haeddu'r anrhydedd. Wedi perfformiad gwych ym Mhencampwriaeth Traws-gwlad Ysgolion Cymru yn y Drenewydd, cafodd Alun ei ddewis i redeg yn nhîm Traws-gwlad Cymru. Llongyfarchiadau calonogol iddo. Rhaid nodi hefyd fod Colin Jones unwaith eto wedi cipio

pencampwriaeth Cymru yn ei oedran ef. Buasai'n braf meddwl y byddai Alun yn dilyn ôl troed Colin, a thrwy hynny yn rhoddi sbardun arall i ieuenctid yr ardal.

Wrth longyfarch Alun eto ar dderbyn y Tlws diolchwn iddo am ei waith yn dosbarthu'r Eco bob mis. Caiff ddosbarthu dros ddau ddwsin o'i lun yn derbyn y Tlws y tro yma!

TYMOR Y RASIO MYNYDD YN AIL-DDECHRAU

Ar ddechrau Mawrth daeth rhedwyr mynydd at ei gilydd ar gyfer ras gyntaf y tymor — Moelyci, ger Rhiwlas. Mae'r diddordeb mewn rasio mynydd ar gynydd, oherwydd eleni daeth 62 o redwyr i gystadlu, y nifer uchaf ar gyfer y ras hon. Diddorol nodi fod mwy a mwy o redwyr hyn yn cymryd rhan: roedd 29 o redwyr Ras Moelyci dros 40 oed. Doedd neb lleol ymysg enillwyr eleni — aeth y brif wobwr dros Glawdd Offa i Warrington, a gwobr y tîm gorau i Glwb Hebog. Dyma safleoedd y rhedwyr lleol: 12, Gwynfor Owen, Llanrug (21 munud 31 eiliad); 17, Dylan Jones, Llanberis (22.15); 20, Kevin Prytherch, Llanberis (22.25); 21, Dafydd W. Thomas, Llanrug, 40+ (22.56); 26, Ronnie Roberts, Llanberis, 40+ (23.26).

Y ras leol nesaf fydd Ras Moel Eilio ar 15 Mai. Mae peth pryder ynglŷn â'r ras ar hyn o bryd oherwydd iddi gael ei dewis yn un o chwech ras Pencampwriaeth Prydain a Phencampwriaeth Cymru, a gyda'r cynnydd eithriadol ym mhoblogrwydd rasio mynydd, efalli y bydd angen newid rhyw gymaint ar y trefniadau.

I'r rhai sydd yn awyddus i roi cynnig ar rasio mynydd, mae'r gyfres Rasmus Nos Fawrth yn gyfle da i gychwyn. Fe'u cynhelir bob pythefnos o Ebrill 6 hyd O'rffennaf 13. Mae'r rasmus yn amrywio o 3 milltir i 5 milltir, ac nid yw'r dringo yn ormodol yn unrhyw un. Mae'r holl rasmus yn cael eu cynnal ar ffurf cynghrair, gydag amser pob rhedwr yn cyfrif tuag at ei safle terfynol.

TLWS Y MIS

I fyd snwcer yr aiff y tlws y mis hwn. Mae'r enillydd ymysg un o'r bobl hynny sy'n gwasanaethu eu cymdeithas heb dynnu sylw atynt eu hunain. Ym Methel, Albert 'Ben' Hughes yw Mr Snwcer. Bu'n chwarae i glwb y pentref am flynyddoedd. Yn llythrennol bu yn allweddol i'r 'Y.M.', oherwydd gellid dibynnu ar Albert fod yno gyda'r gorïad i gor y drws. O gofio cyflwr trychinebus yr hen neuadd, gellir canmol Albert am fynnu bod y drws yn dal yn agored a'r fflam yn dal ynghyn. Mae'r adeilad pwrpasol

newydd yn amlwg yn ei blesio. Mae'r cynnydd yn yr aelodaeth — yn enwedig ymysg yr ifanc — yn dystiolaeth o ffydd a hyder Albert yn y dyddiau 'tywyll'. Erbyn hyn mae Albert wedi ymddeol o'i waith beunyddiol — ond does dim gorffwys iddo. Mae 'shifft' prynhawn erbyn hyn, a braf yw gweld rhai o bensiynwyr y pentref yn cael gêm mewn awyrgylch hwyliog a chynnes. Ac mae Albert wedi gwneud yn siŵr fod panad ar gael hefyd! Enillydd teilwng iawn yn sicr.

GALLU DAL Y PWYSAU



Cymerodd Gareth Parry naid enfawr yn ddiweddar pan 'gododd' o fod yn bencampwr Cymru i fod yn bencampwr Prydain. Y mae'n bluen arall yng nghap Clwb Codi Pwysau Llanrug. Roedd yn cystadlu o dan 16 oed i rai'n pwysu o dan 64kg. Yng nghystadleuaeth y 'bachiad' llwyddodd i godi 65kg — hynny yn

fwy na'i bwysau ei hun. Yng nghystadleuaeth y 'codi'n lân a herc', llwyddodd i godi 85kg. Yr hyn sy'n wych am ei lwyddiant yw mai dyma'r tro cyntaf i Gareth gystadlu ar lefel Brydeinig. Ai dyma gam pwysig ymlaen i Gareth efelychu campau 'tad' y Clwb, sef yr unigryw leuan Owen?

YDY'R TIMAU YN BAROD?

Eto eleni mae'n siŵr y bydd cryn cystadlu am Dlws Pêl-droed yr Eco i Ysgolion Cynradd y dalgylch. Cafwyd noson hwylus a chystadleuol y llynedd ar faes Ysgol Gynradd Llanrug. Efallai i chwi gofio i Lanrug guro Bethel mewn gêm derfynol gofiadwy. Gan fod y lleoliad mor hwylus bwriedir cynnal y gystadleuaeth yno eto eleni. Y dyddiad pwysig yw **nos Wener, Mai 28**. Bwriedir dechrau am 6 o'r gloch. Mae'r gystadleuaeth yn agored i BOB PENTREF ym mro'r Eco — does dim rhaid i'r timau fod yn dimau swyddogol o'r ysgolion. Gellir cael mwy nag un tîm o bob pentref — gorau po fwyaf. Er mwyn talu am y tlysau codir tâl o £2 y tîm. Gellir cael carfan o 10 chwaraewr ond dim ond 8 o bob tîm fydd yn chwarae ar unrhyw adeg. Os yw eich pentref neu eich ysgol am ddod â thîm i'r gystadleuaeth cysylltwch â mi, cyn gynted ag sy'n bosibl.

CAEL 'CIC' O'R KARATE



Daeth un arall o ieuenctid Llanrug i'r brig yn ddiweddar a hynny ym myd Karate. Yn y bencampwriaeth Kata chwarterol daeth Sara Roberts i'r brig — a hynny allan o 50 o gystadleuwyr. Yr oedd pum cystadleuydd yn deilwng o'r brif wobwr, ond mewn cystadleuaeth glòs iawn Sara ddaeth i'r brig. Aelod o glwb Karate Bontnewydd yw Sara.